

# Mae leithoedd yn ein Cysylltu: Ymchwiliad i Safbwyntiau Dysgwyr ar leithoedd Rhyngwladol mewn Ysgolion Uwchradd yng Nghymru

Elin Arfon, UCL  
Claire Gorrara, Prifysgol Caerdydd  
Lucy Jenkins, Prifysgol Caerdydd  
Glesni Owen, Prifysgol Caerdydd

## CRYNODEB

Bu gostyngiad mawr yn nifer y dysgwyr sy'n dewis astudio ieithoedd ar lefel TGAU ar wahân i Gymraeg a Saesneg mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru. Mae'r erthygl hon yn ceisio deall y ffactorau sy'n dylanwadu ar safbwyntiau dysgwyr ynghylch astudio ieithoedd yng Nghymru. Mae'n dechrau drwy roi trosolwg o bolisi ac ymarfer addysg ieithoedd yng Nghymru a'r newidiadau o ganlyniad i gyflwyno Cwricwlwm i Gymru newydd fesul cam o 2022, yn ogystal â'r llenyddiaeth ar gymhelliad dysgwyr ac ymchwil o Gymru. Canolbwynt yr erthygl hon yw dadansoddiad meintiol o set ddata sylfaenol o bron i 6,000 o ymatebion gan ddysgwyr Blwyddyn 8 a 9 mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru. Cynhyrchwyd y set ddata hon o holiadur a ddosbarthwyd drwy gynllun mentora ieithoedd, sydd ar waith mewn dwy ran o dair o ysgolion uwchradd yng Nghymru. Mae'r dadansoddiad yn mynd i'r afael â chwestiynau ynghylch pam mae dysgwyr yng Nghymru yn dewis (neu ddim yn dewis) astudio ieithoedd Rhyngwladol pan fyddant yn dod i ddewis opsiynau ar gyfer arholiadau TGAU (ar ddiwedd addysg statudol orfodol); y cysylltiadau rhwng leithoedd Rhyngwladol a phynciau eraill, yn benodol y Gymraeg a'r Saesneg yn y Cwricwlwm i Gymru newydd; ac anhawster

canfyddedig astudio leithoedd Rhyngwladol yn yr ysgol. Mae ein canfyddiadau'n dangos bod defnyddioldeb (i'r dyfodol) a mwynhad personol yn ysgogwyr allweddol i ddysgwyr wrth ddewis laith Rhyngwladol ar lefel TGAU. Hefyd, roedd dysgwyr yn awyddus i ddysgu ieithoedd newydd nad oeddent yn cael eu cynnig yn eu hysgolion. Fodd bynnag, nid oedd y cysylltiadau rhwng Saesneg, leithoedd Rhyngwladol a'r Gymraeg fel ieithoedd yn amlwg i lawer o ddysgwyr. Nid oedd dysgwyr o'r farn bod leithoedd Rhyngwladol o reidrwydd yn anoddach na phynciau eraill, ac nid anhawster oedd y prif rwystr i ddysgwyr wrth beidio â dewis leithoedd Rhyngwladol ar lefel TGAU. Mae'r erthygl yn cloi drwy adlewyrchu ar strategaethau a allai gynyddu ymgysylltiad dysgwyr ag ieithoedd ar adeg dyngedfennol yng Nghymru gyda chyflwyno cwricwlwm newydd a dyheadau amlieithog ar gyfer dysgu ieithoedd.

**Geiriau allweddol:** Cymru, cwricwlwm, ieithoedd, mentora, cymhelliad, amlieithrwydd

---

## Cyflwyniad

Mae'r Cwricwlwm i Gymru newydd, fel nifer o gwricwla ledled y byd (Chen et al., 2022, 3), yn hyrwyddo math o Bolisi Addysg laith sy'n amlieithog o ran natur a diben (Hélot a Bonacina-Pugh, 2023, 14). Fodd bynnag, yng Nghymru rhwng 2018 a 2023, cafwyd gostyngiad o 28 y cant yn nifer y dysgwyr sy'n astudio Ffrangeg, Almaeneg neu Sbaeneg (y prif ieithoedd Ewropeaidd mewn addysg uwchradd yn y DU) ar gyfer arholiadau yn 16 oed (Llywodraeth Cymru, 2023c). Yn 2023, dim ond 10.35 y cant o'r holl ddysgwyr yng Nghymru a gwblhaodd gymhwyster ar ddiwedd addysg uwchradd (Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd: TGAU) yn 16 oed mewn leithoedd Rhyngwladol (Ffrangeg, Almaeneg neu Sbaeneg) (Llywodraeth Cymru, 2023c).<sup>1</sup> Mae hyn yn parhau'r patrwm cyffredinol diweddar o ostyngiad.

<sup>1</sup> Ieithoedd Rhyngwladol yw'r term ar gyfer yr holl astudiaethau ieithyddol y tu hwnt i Saesneg a Chymraeg mewn ysgolion yng Nghymru. Mae Saesneg a Chymraeg yn bynciau gorfodol nes y bydd dysgwyr yn 16 oed. Fe'u dynodwyd yn flaenorol yn leithoedd Tramor Modern, ac mae'r Cwricwlwm i Gymru newydd wedi rhagnodi'r fformiwleiddiad gwahanol hwn. Mae'n cynnwys laith Arwyddion Prydain, ieithoedd clasurol, ieithoedd cymunedol ac ieithoedd modern.

Yn y cyd-destun heriol hwn, mae'r erthygl hon yn ceisio deall y dirwedd ieithoedd mewn ysgolion yng Nghymru o safbwynt y dysgwr. Er bod corff cynyddol o ymchwiliad yng Nghymru ar safbwynt y dysgwr mewn perthynas ag ieithoedd Rhyngwladol, mae'n parhau i fod yn faes eithaf bach sy'n datblygu (gweler Jones, 2023b). Gan mai nhw sydd wrth galon addysg yng Nghymru, mae'n hanfodol ein bod yn archwilio a deall safbwynt y dysgwyr i lywio penderfyniadau polisi ac ymarfer yn well.

Bydd yr erthygl hon felly'n canolbwyntio ar safbwynt y dysgwr. Bydd yn archwilio'r hyn a ddywed y dysgwyr eu hunain am eu dewisiadau pan fyddant yn dewis pynciau ar gyfer eu cwrs TGAU dwy flynedd yn 13 a 14 oed. Mae'r oeddrannau hyn yn cyfateb i Flynyddoedd 8 a 9 mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru. Bydd yn gwneud hynny drwy dynnu ar ddata arolwg o bron i 6,000 o ymatebion i holiadur blynyddol a wnaed gan ddysgwyr fel rhan o'r prosiect Mentora ITM, sef prosiect ledled Cymru sy'n ceisio ysbrydoli pobl ifanc i ddewis iaith Ryngwladol ar lefel TGAU drwy ddatblygu diddordeb a chymhelliad dysgwyr. Ar sail y dewisiadau a ddatgelwyd yn ein set ddata, bydd yr erthygl hon yn gofyn beth sy'n ysgogi dysgwyr i ddewis astudio iaith Ryngwladol ar lefel TGAU yn ogystal â beth sy'n eu datgymhell o ystyried y gostyngiad yn y nifer sy'n dewis gwneud hyn yng Nghymru (Duff et al., 2024). Bydd yn ystyried, wrth ddewis pynciau i'w hastudio ar lefel TGAU, sut y mae dysgwyr yn graddio pynciau eraill mewn perthynas ag ieithoedd Rhyngwladol a sut y maent yn cysylltu (neu ddim yn cysylltu) astudio ieithoedd Rhyngwladol â'r Gymraeg a Saesneg, o gofio natur ryngddisgyblaethol y Cwricwlwm i Gymru newydd a chyfuno astudio ieithoedd (Saesneg, Ieithoedd Rhyngwladol a Chymraeg) o dan un maes cwricwlwm (Llywodraeth Cymru, 2021a). Yn ogystal â hyn, bydd yn ystyried safbwyntiau'r dysgwyr mewn perthynas ag anhawster canfyddedig ieithoedd Rhyngwladol fel pwnc. Mae anhawster y pwnc wedi'i ddyfynnu'n eang fel rhwystr i astudio ieithoedd Rhyngwladol ar lefel TGAU yng Nghymru a'r DU (Estyn, 2009, 24; Lanvers, 2017, 521; Tinsley, 2019a, 20).

Bydd yr erthygl yn dechrau drwy roi trosolwg dadansoddol o bolisi ac ymarfer addysg iaith yng Nghymru, gan nodi nodweddion unigryw y sector Cymreig yng nghyd-destun y DU. Yna bydd hefyd yn archwilio cymhelliad dysgwyr ac ieithoedd Rhyngwladol a rhai o'r dadleuon a'r tybiaethau sy'n sail i safbwyntiau ymarferwyr ac ymchwiliwyr ar astudio ieithoedd Rhyngwladol yng Nghymru. Yna bydd yn canolbwyntio ar set ddata sylfaenol o ymatebion dysgwyr o'r prosiect Mentora ITM a gasglwyd rhwng 2021/2022. Bydd yr erthygl yn archwilio ystyriaethau methodolegol, dyluniad y set ddata sylfaenol a phroffiliau'r cyfranogwyr cyn trafod

tri maes dadansoddi: cymhelliad dysgwyr i astudio TGAU mewn leithoedd Rhyngwladol, cysylltiadau â phynciau eraill y cwricwlwm ac anhawster canfyddedig dysgu leithoedd Rhyngwladol. Yn hollbwysig, bydd yr erthygl yn cloi drwy ymchwilio i strategaethau i gynyddu ymgysylltiad dysgwyr ag leithoedd Rhyngwladol ar adeg dyngedfennol i addysg yng Nghymru, gyda chyflwyno cwricwlwm newydd a dyheadau hollol wahanol ar gyfer taith dysgu leithoedd.

### **Dysgu leithoedd yng Nghymru: Polisiau a Strategaethau**

Mae tapestri ieithyddol Cymru yn un amrywiol. Mae gan y Gymraeg a'r Saesneg statws cyfartal yng Nghymru. Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae 17.8 y cant o unigolion yng Nghymru yn siarad Cymraeg (Llywodraeth Cymru, 2022a). Yn ogystal â'r dwyieithrwydd hwn, ceir leithoedd y tu hwnt i'r Gymraeg a'r Saesneg. Roedd gan dros 34,000 o ddysgwyr 5 oed a hŷn famiaith nad yw'n Gymraeg a Saesneg yn 2022/23 (Llywodraeth Cymru, 2023a). Pwyleg, Arabeg a Bengaleg yw'r tair prif iaith o blith dros 150 o leithoedd a siaradir gan ddysgwyr mewn ysgolion ledled Cymru (Llywodraeth Cymru, 2023b). Yn wir, mae'r cyd-destun ieithyddol yng Nghymru yn cynnig cyfleoedd cyfoethog i ddysgwyr ddod yn amlieithog. Er bod amlieithrwydd o'r fath yn cael ei hyrwyddo ar lefel polisi, mae'r realiti ar lawr gwlad yn wahanol iawn.

O ran polisi a strategaeth, mae llawer yn cael ei wneud i hyrwyddo dysgu Cymraeg ac leithoedd Rhyngwladol i ddysgwyr yng Nghymru. Mewn perthynas â'r Gymraeg, mae strategaeth *Cymraeg 2050* Llywodraeth Cymru (2017) yn ceisio sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Ysgogwr allweddol ar gyfer y strategaeth hon yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n mynd drwy'r system addysg (Llywodraeth Cymru, 2017, 37–9). Gall dysgwyr fynychu ysgolion sydd wedi'u categorioedd ar sail graddau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg: o addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i addysg cyfrwng Saesneg (Llywodraeth Cymru, 2021d). O ran dysgu leithoedd Rhyngwladol yng Nghymru, mae llawer yn cael ei wneud hefyd ar lefel polisi a strategaeth i hybu dysgu. Mae hyn wedi'i gyfleu yn *Rhaglen Lywodraethu 2021-2026* Llafur Cymru sy'n llywodraethu ar hyn o bryd, sydd â'r nod o ehangu addysgu leithoedd Rhyngwladol mewn ysgolion (Llywodraeth Cymru, 2021e, 13). Mae'r gwaith o hyrwyddo'r polisi hwn o ddysgu leithoedd Rhyngwladol wedi'i gynnal drwy'r cynllun *Dyfodol Byd-eang*, y Cwricwlwm i Gymru ac amrywiaeth o brosiectau allgymorth ledled Cymru.

## Y Cynllun Dyfodol Byd-eang

Mae cynllun *Dyfodol Byd-eang* Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2022b) yn cefnogi'r gwaith o hybu leithoedd Rhyngwladol o fewn y cwricwlwm newydd.<sup>2</sup> Roedd iteriad cyntaf y strategaeth o 2015–2020 yn canolbwyntio ar ddysgwyr yn astudio Cymraeg, Saesneg ac un iaith Dramor Fodern: dull 'dwyieithog a mwy' (Llywodraeth Cymru, 2015, 3). Mae'r ail iteriad, *Dyfodol Byd-eang 2020–2022*, a'r trydydd iteriad presennol, *Dyfodol Byd-eang 2022–2025*, wedi symud i ffwrdd o'r dull dwyieithog a mwy, tuag at gefnogi dysgwyr i ddod yn ddinasyddion byd-eang gyda ffocws ar amlieithrwydd (Llywodraeth Cymru, 2021c; 2022b). Mae gwaith dadansoddi'n awgrymu bod y strategaeth wedi ennill tir mewn ysgolion ar lawr gwlad. Er enghraifft, nododd yr adroddiad *Tueddiadau leithoedd yng Nghymru 2019* fod 88 y cant o ysgolion wedi ymgysylltu â *Dyfodol Byd-eang*, gyda 52 y cant o'r farn bod y cynllun wedi gwella sefyllfa leithoedd Rhyngwladol yn eu hysgol (Tinsley, 2019a, 22). Fodd bynnag, nododd yr ymatebwyr hefyd fod y cynllun *Dyfodol Byd-eang* wedi'i danseilio oherwydd diffyg cyllid a'r problemau parhaus gydag arholiadau ac asesiadau ar gyfer leithoedd (Tinsley, 2019a, 23). Yn yr un modd, canfu gwerthusiad allanol o *Dyfodol Byd-eang* yn 2022, er bod y fenter wedi darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol gwell i athrawon yn ogystal â mynediad at gymorth ac adnoddau newydd, nid yw wedi cyflawni un o'i brif amcanion: cynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio leithoedd Rhyngwladol (Jones et al., 2022, 6–7). Argymhellodd yr adroddiad y dylai *Dyfodol Byd-eang* diwygiedig o 2022 ymlaen fabwysiadu cynllunio tymor hwy ar gyfer leithoedd, yn yr un modd â *Cymraeg 2050* (Jones et al., 2022, 8).

## Cwricwlwm i Gymru

Mae'r Cwricwlwm i Gymru newydd, sef ysgogiad polisi arall ar gyfer leithoedd Rhyngwladol yng Nghymru, yn statudol i bawb rhwng 3 ac 16 oed. Fe'i gweithredwyd yn 2022 ar gyfer y sector cynradd ac yn 2022/2023 ar gyfer y sector uwchradd. Yn ei ddyluniad, mae'n dilyn 'polisi "cwricwlwm newydd" byd-eang diweddar' (Sinnema et al., 2020, 181), oherwydd mae'n darparu canllaw ar gyfer ysgolion i ddatblygu eu

2 Mae *Languages for the Future: Northern Ireland Languages Strategy* (Department of Education, 2012) a'r strategaeth *Language Learning in Scotland: a 1 + 2 Approach* (Llywodraeth yr Alban, 2012) yn argymhell y dylai dysgwyr ddysgu dwy iaith yn ogystal â'u mamiaith.

cwricwlwm lleol eu hunain. Yn dilyn adroddiad *Dyfodol Llwyddiannus* (Donaldson, 2015) ar gwricwlwm ac asesiadau Cymru, mae'r Cwricwlwm i Gymru yn cydnabod chwe Maes Dysgu a Phrofiad trawsgwricwlaidd, y mae leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn un ohonynt. Mae'r maes hwn yn gweld dysgu ar draws Saesneg, Cymraeg ac leithoedd Rhyngwladol drwy'r cysyniad o gontinwwm dysgu ieithoedd lle mae dysgwyr yn gwneud cynnydd yn y tri phwnc iaith o'r ysgol gynradd ymlaen. Mae hyn yn rhannu ethos gyda *Curriculum for Excellence* yr Alban (Education Scotland, 2022) a *The Northern Ireland Curriculum* (CCEA, 2020) fel dull o gyfuno ieithoedd.<sup>3</sup> Mae cwricwlwm Cymru'n hybu 'dull amlieithog a lluosieithog' (Llywodraeth Cymru, 2021a) ar gyfer dysgu iaith sy'n ceisio datblygu gwerthfawrogiad o iaith a diwylliant ac osgoi gosod ieithoedd mewn blychau ar wahân.

Tra bod y Cwricwlwm i Gymru yn canolbwyntio ar amlieithrwydd ar gyfer dysgu ieithoedd, mae ei weithrediad cynnar wedi codi cwestiynau ynghylch i ba raddau y gellir gwreiddio amlieithrwydd yn llawn o fewn dosbarthiadau ysgolion uwchradd Cymru. Mae'r Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu'n annog cysylltiadau traws-ddisgyblaethol rhwng pynciau ieithoedd ond gall 'athroniaethau uniaith' (Makarova et al., 2021, 1) fod yn drech wrth ddylunio a gweithredu cwricwlwm, sy'n golygu bod ieithoedd yn yr ysgol yn cael eu dysgu ar wahân, er anfantais i addysg ac ethos amlieithog. Yn wir, yn y adroddiad *Tueddiadau Ieithoedd Cymru 2023*, sy'n cael ei gomisiynu a'i ddarparu'n flynyddol gan y British Council, dim ond 26 y cant o'r athrawon a ymatebodd a adroddodd eu bod yn credu y byddai gosod ieithoedd Rhyngwladol yn y Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn gwella'r sefyllfa ar gyfer ieithoedd Rhyngwladol yng Nghymru (Duff et al., 2024, 21). Mae adroddiadau diweddar, fel *Ymchwil gydag ysgolion a dysgwyr ar weithredu cynnar y Cwricwlwm i Gymru: Adroddiad cam 1* (Thomas et al., 2023, 7), yn nodi bod uwch arweinwyr yn blaenoriaethu sgiliau dysgwyr yn y Gymraeg. Mae heriau ymarferol eraill o ran gweithredu'r dull amlieithog yn y cwricwlwm newydd wedi'u hamlygu gan Gorrara et al. (2020, 251), ac yn fwy na dim y rhagdybiaeth y bydd newid mewn hunaniaeth athrawon a'u hymarfer tuag at ddulliau amlieithog o ddysgu ieithoedd. Ni fu hyn o reidrwydd yn nodwedd o hunaniaeth ac ymarfer proffesiynol athrawon hyd yn hyn yng Nghymru.

- 3 Mae heriau wedi ymddangos ar gyfer cwricwla Gogledd Iwerddon a'r Alban. Gweler Jones (2020) am werthusiad beirniadol o sefyllfa ieithoedd yng Ngogledd Iwerddon ac adroddiad *Scotland's Curriculum for Excellence: Into the Future* (2021) y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) am werthusiad o'r cyd-destun yn yr Alban.

### Prosiectau Allgymorth

Yng Nghymru, mae'r prosiectau sy'n ceisio meithrin cymhelliad dysgwyr i ddysgu ieithoedd yn cynnwys *Llwybrau at leithoedd Cymru* a'r prosiect Mentora ITM. Mae'r naill brosiect a'r llall yn hybu dysgu leithoedd Rhyngwladol drwy feithrin cydweithio rhwng cyfoedion ymhlith myfyrwyr prifysgol a dysgwyr mewn ysgolion.<sup>4</sup> Mentrau mwyaf nodedig *Llwybrau at leithoedd Cymru* yw'r cynlluniau Myfyrwyr Llysgenhaddon laith a Llysgenhaddon laith mewn Ysgolion (gweler Jepson, 2020). Mae'r prosiect Mentora ITM yn ceisio cynyddu nifer y dysgwyr sy'n dewis leithoedd Rhyngwladol ar lefel TGAU drwy hyfforddi myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig i rannu eu cariad at ieithoedd a diwylliannau byd-eang fel mentoriaid gyda dysgwyr mewn ysgolion uwchradd. Mae'r model mentora cyfoedion agos hwn yn cefnogi dysgwyr ar adeg gwneud dewisiadau allweddol pan fyddant yn dewis opsiynau ar gyfer TGAU yn 13 a 14 oed. Hyd yn hyn, mae'r prosiect wedi gweithio gyda 172 o ysgolion uwchradd a gynhelir gan y wladwriaeth yng Nghymru ac mae dros 30,000 o ddysgwyr wedi cael budd o'r prosiect. Mae gwerthuswyr allanol wedi adrodd ar effaith y prosiect Mentora ITM o ran helpu i wrthbwyso'r gostyngiad yn y nifer sy'n dilyn cwrs TGAU yng Nghymru mewn ysgolion partner (Rushton a Thomas, 2020). Ar gyfartaledd, mae rhwng 35 y cant a 45 y cant o fentoreion wedi mynd ymlaen i astudio leithoedd Rhyngwladol ar lefel TGAU, sef dros ddwbl y cyfartaledd cenedlaethol yng Nghymru.<sup>5</sup> Roedd y rhain yn ddysgwyr o garfannau blwyddyn gyfan a nododd mewn arolygon cyn mentora nad oeddent yn dymuno astudio laith Ryngwladol ar lefel TGAU neu nad oeddent yn siŵr.

### Dysgu laith yng Nghymru: Realiti Ymarfer

Er gwaethaf y gwaith o hyrwyddo leithoedd Rhyngwladol ar lefel polisi a strategaeth, ceir heriau ymarferol o hyd i addysgu a dysgu leithoedd Rhyngwladol yng Nghymru a chyflawni amlieithrwydd. Yn wir, er bod leithoedd Rhyngwladol yn

4 Mae mentrau cymhelliad i ddysgu ieithoedd wedi bod ar waith, neu ar waith, ym mhob un o 4 awdurdodaeth y DU, er enghraifft y prosiect *We Are Multilingual* yn Lloegr (Forbes et al., 2021).

5 Dilynnodd y prosiect *Languages Horizons* (2018–2020) fodel tebyg i'r prosiect Mentora ITM yn Lloegr, gan ddefnyddio dull dysgu cymysg (wyneb yn wyneb a digidol) o'r cychwyn cyntaf.

ganolog i weledigaeth y cwricwlwm newydd, yn wahanol i Gymraeg a Saesneg fel pwnc iaith gyntaf neu ail iaith, nid yw'n orfodol i ddysgwyr ddilyn TGAU mewn iaith Ryngwladol.

Yn anffodus, ceir darlun llwm o ran nifer y rheini sy'n astudio leithoedd Rhyngwladol ar lefel TGAU a Safon Uwch, sef y cymhwyster dwy flynedd a wneir yn 18 oed. Rhwng 2015 a 2021, mae nifer y rheini sy'n dewis gwneud TGAU mewn Ffrangeg ac Almaeneg wedi gostwng bron i hanner yng Nghymru (Collen et al., 2021, 6). Er mai Ffrangeg oedd yr iaith a addysgwyd fwyaf ar lefel TGAU, ac yna Sbaeneg ac Almaeneg yn 2023 (Duff et al., 2024, 7), mae ysgolion sy'n cynnig cyfleoedd i ddysgwyr astudio dwy iaith Ryngwladol mewn ysgolion uwchradd yn gynyddol ddod yn eithriad yn hytrach na'r hyn sy'n arferol yng Nghymru (Collen et al., 2022, 24). Gwelwyd y tuedd tuag at i lawr hwn i raddau helaeth ar draws nifer y rheini sy'n dewis Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg ar lefel TGAU a Safon Uwch yng Nghymru yn ystod haf 2022 (JCQ, 2022a; JCQ, 2022b). Dim ond 58 o ddysgwyr yng Nghymru a safodd arholiad Safon Uwch Almaeneg yn 2022, sef yr iaith a siaradir fwyaf yn Ewrop (Collen et al., 2022, 5). Ar ôl dweud hynny, bu cynnydd bach yn y nifer a safodd arholiadau ar draws y tair iaith ar lefel Safon Uwch yn 2023 (Duff et al., 2024, 8) ond roedd niferoedd o'r fath ar gyfer Safon Uwch yn parhau yn y cannoedd isel ar gyfer Ffrangeg a Sbaeneg, gyda 65 yn sefyll Almaeneg. Bu gostyngiad mawr yn y nifer sy'n sefyll arholiadau Safon Uwch a TGAU mewn leithoedd Rhyngwladol (gan gynnwys ieithoedd cymunedol) ar wahân i Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg rhwng 2019 a 2021 (Collen et al., 2021, 6). Fodd bynnag, mae'r ffigurau hyn wedi dychwelyd i'w lefelau cyn Covid-19, gyda chyfanswm ieithoedd o'r fath yn gwneud yn well na TGAU Almaeneg, ac yn debyg i Ffrangeg a Sbaeneg ar lefel Safon Uwch (Duff et al., 2024, 7–8). Ceir llai o wybodaeth am hynt unigol ieithoedd y tu hwnt i'r 'dair fawr', sef Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg yng Nghymru. Felly, tra bod y polisi a'r weledigaeth strategol yng Nghymru yn gyfoethog o ran amlieithrwydd, ymddengys bod rhoi dysgu leithoedd Rhyngwladol ar waith yng Nghymru wedi'i ddatgysylltu o'r weledigaeth hon mewn gwirionedd.

Mae heriau pellach ar gyfer dysgu leithoedd Rhyngwladol yng Nghymru yn ymwneud â'r amser cyfyngedig a neilltuir i addysgu leithoedd Rhyngwladol yng nghwricwlwm ysgolion uwchradd; ysgolion yn creu llwybrau a dewisiadau ar gyfer pynciau TGAU dewisol sy'n peri i ddysgwyr ddewis pynciau eraill; a chyfyngiadau ariannol ysgolion sy'n arwain at isafsymiau gofynnol ar gyfer carfan TGAU, y gellir dadlau eu bod yn effeithio fwy ar leithoedd Rhyngwladol nag ar bynciau eraill (Gorrara, 2018, 150–2; Jones, 2023b, 75–82). Mae'r pandemig Covid-19 yn parhau i

ddylanwadu ar ddysgu ieithoedd Rhyngwladol, a'r dysgwyr mewn ysgolion yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru sydd wedi'u heffeithio fwyaf oherwydd mynediad cyfyngedig i'r rhyngwladol a thechnoleg yn ystod y pandemig ac adroddiadau o leihad mewn ymgysylltiad a chymhelliad mewn perthynas â dysgu ieithoedd (Collen et al., 2021, 10). Nid yw'r un o'r heriau hyn yn tynnu oddi wrth ymrwymiad y gymuned o athrawon ieithoedd Rhyngwladol yng Nghymru sy'n darparu addysgu a dysgu ieithoedd mewn cyd-destunau lle y mae'r pwnc yn aml wedi'i danbriso neu o dan fygythiad o lai o amser yn y cwricwlwm neu ei golli yn gyfan gwbl.

### **Cymhelliad Dysgwyr: Cysyniadau**

#### ***Cymhelliad Dysgwyr: Cysyniadau Rhyngwladol a'r DU***

Mae cymhelliad dysgwyr i ddysgu iaith yn faes astudio llewyrchus sy'n esblygu. Er enghraifft, yn y dyddiau cynnar cynigiodd Gardner a Lambert (1972) gymhellion cyfryngol (e.e. am resymau ymarferol fel derbyn cymhwyster) a chymhelliad integreiddiol (e.e. dymuno dod yn agosach at y gymuned lleferydd). Fodd bynnag, mae'r cymhelliad i 'ddod yn agosach at gymuned yr iaith arall' (Gardner, 2001, 5) (cymhelliad integreiddiol) wedi colli ei oruchafiaeth epistemolegol yn y maes (Ushioda, 2011, 199). Mae hyn oherwydd bod globaleiddio, a statws Saesneg fel lingua franca, wedi ailffocysu'r trafodaethau mewn mannau eraill ar y cymhellion i astudio a dysgu ail iaith (L2) (Ushioda, 2011, 199). Mae damcaniaethwyr, fel Dörnyei (2009), wedi rhoi pwyslais ar yr amgylcheddau dysgu iaith gwahanol sy'n dylanwadu ar gymhelliad. Mae hyn wedi arwain at waith ar y mathau o hunan neu hunaniaeth y gallai dysgwr ail iaith (L2) eu mabwysiadu, fel y System Hunan Cymhellol L2, sydd wedi dod yn gysyniad dylanwadol yn y maes. Yn y model cymhellol a ddatblygwyd gan Dörnyei (2009, 29), ceir yr 'hunan L2 delfrydol', sef y math o hunan yr hoffai dysgwyr ieithoedd fod yn y dyfodol. I'r gwrthwyneb, ceir yr 'hunan L2 y dylwn fod', sy'n cyfeirio at 'hunan' lle y mae angen i ddysgwyr ieithoedd ddysgu i fodloni disgwyliad pobl eraill ohonynt (Dörnyei, 2009, 29). Ceir profiad dysgu ail iaith hefyd sy'n edrych ar 'gymhellion gweithredol' o'r amgylchedd dysgu e.e. effaith yr athro a'r cwricwlwm (Dörnyei, 2009, 29).

Tra bod llawer o'r llenyddiaeth ryngwladol yn canolbwyntio ar ddysgwyr Saesneg (Lanvers a Graham, 2022, 224; Oakes a Howard, 2019, 169), yn y DU (cyd-destun

Saesneg i raddau helaeth), mae cymhelliad dysgwr i ddysgu iaith yn cynnig safbwynt gwahanol. Mae hyn oherwydd nad Saesneg yw'r pwnc ail iaith i gael ei astudio, sy'n wahanol i nifer o gyd-destunau ledled y byd. Yn wir, yng nghyd-destun y DU, bu ymchwilwyr yn archwilio cymhelliad dysgwyr i ddysgu leithoedd Rhyngwladol mewn ysgolion ers tro (e.e. Coleman et al., 2007; Bolster, 2009). Yn y cyd-destun hwn, mae rhai ymchwilwyr (e.e. Parrish a Lanvers, 2018; Lanvers a Graham, 2022) wedi defnyddio'r Ddamcaniaeth Hunanbenderfyniaeth (Deci a Ryan, 1985) lle gellir cysyniadoli cymhelliad ar hyd continwwm sy'n mynd o ddim cymhelliad (dim rheoleiddio, diffyg bwriad) tuag at gymhelliad anghynhenid (sy'n cynnwys pedwar math: rheoleiddio allanol e.e. disgwyliadau rhieni; rheoleiddio a gyflwynwyd; rheoleiddio a nodwyd e.e. defnyddioldeb; a rheoleiddio integredig) ac, yn olaf, cymhelliad cynhenid (rheoleiddio cynhenid, e.e. mwynhad) (Lanvers a Graham, 2022, 224; Oakes a Howard, 2019, 168; gweler Parrish a Lanvers, 2018, 295 i weld delwedd ddefnyddiol).

Mae astudiaethau yn y DU yn tueddu i ganolbwyntio ar ddiffyg cymhelliad dysgwyr unigol i ddysgu iaith ac maent yn pwysleisio bod cymhelliad yn tueddu i gael ei gysyniadoli fel nodwedd dysgwr sy'n gymwys i bob iaith Ryngwladol, yn hytrach nag yn gysylltiedig ag ieithoedd targed penodol (Lanvers a Chambers, 2019, 434). Mae Lanvers a Chambers (2019, 436) yn nodi sut y gall profiadau dysgu negyddol wrthbwysio agweddau cadarnhaol. Gall yr effaith negyddol hon gynyddu wrth i ddysgwyr wneud cynnydd drwy addysg uwchradd (Lanvers a Chambers, 2019, 435). Mae arolwg Lanvers (2017, 521) hefyd yn amlygu'r tuedd tuag at i lawr o ran cymhelliad i ddysgu ail iaith mewn ysgolion uwchradd yn Lloegr, sy'n gysylltiedig â lleihad mewn mwynhad a cholli ymdeimlad o berchnogaeth sy'n gysylltiedig ag addysgu ailadroddus a ffocws gormodol ar asesu. Yn ogystal, dangosodd arolwg Lanvers (2017, 521) fod gan ddysgwyr ieithoedd gymhelliad gwael, a chymhelliad cyfryngol a 'dylwn fod' gan mwyaf (gweler Dörnyei, 2009), yng nghyd-destun ysgolion uwchradd yn Lloegr, ac roeddent yn pryderu ynglŷn â disgwyliadau rhieni a'r system addysg. Roedd hyn yn arbennig o wir am yr ystod oedran 11–14 (Lanvers, 2017, 521).

### ***Cymhelliad Dysgwyr: Y Darlun yng Nghymru***

Mae'r system addysg yng Nghymru yn cynnig cyd-destun arall eto ar gyfer astudio cymhelliad dysgwyr i ddysgu leithoedd Rhyngwladol yng nghyd-destun y DU. Mae hyn oherwydd, yng Nghymru, addysgir leithoedd Rhyngwladol fel pwnc trydedd iaith (L3). Yn wir, mae ymchwil diweddar yng Nghymru i gymhelliad dysgwyr leithoedd

Rhyngwladol wedi tynnu ar y Ddamcaniaeth Hunanbenderfyniaeth ac o'r System Hunan Cymhellol L2 (gweler Jones, 2023a).<sup>6</sup> Ar gyfer ymchwilwyr, fel Henry (2017, 549), mae'r ffocws hwn ar ddysgu ail iaith a chymhelliad yn hepgor dynameg gymhleth amgylcheddau amlieithog lle mae mwy nag un ail iaith yn weithredol ac yn cael ei dysgu yn y dosbarth a'i chynnwys yn nyluniad y cwricwlwm, fel yng Nghymru.<sup>7</sup> Yn wir, mae Jones (2023a) hefyd yn amlygu'r gwahaniaethau rhwng dysgu ail iaith a thrydedd iaith. Gan dynnu ar waith Bui (2023), mae Jones (2023a) yn cynnig arsylwad pwysig am y gwahaniaethau posibl yng nghymhelliad dysgwyr ar y sail bod yr ail iaith (Cymraeg) yn bwnc gorfodol ar gyfer y rheini sy'n ei astudio fel ail iaith ar lefel TGAU o gymharu â'r drydedd iaith (leithoedd Rhyngwladol) sy'n ddewisol ar lefel TGAU.<sup>8</sup> Yn wir, mae Saesneg i bawb, a Chymraeg fel iaith gyntaf, hefyd yn bynciau TGAU gorfodol. Ni waeth a yw Cymraeg yn bwnc iaith gyntaf neu ail iaith i ddysgwyr yng Nghymru, gellir dadlau bod leithoedd Rhyngwladol bob tro'n cael eu cyflwyno fel y pwnc TGAU dewisol trydedd iaith yng nghwricwlwm yr ysgol (Arfon, 2024). Felly, er ein bod wedi tynnu ar astudiaethau yn y DU a chysyniadau rhyngwladol i hysbysu ein syniadau, rydym yn tynnu'n bennaf ar gyd-destun ymchwil leithoedd Rhyngwladol yng Nghymru, a gyflwynwn yn yr adrannau nesaf. Mae hyn oherwydd y cyd-destun ieithyddol yng Nghymru o addysgu leithoedd Rhyngwladol fel pwnc trydedd iaith mewn system addysg ddwyieithog lle y mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn bresennol. Mae ein hymchwyl yn ymwneud â chymhelliad dysgwyr i ddysgu pwnc trydedd iaith yng Nghymru – sy'n gyd-destun unigryw sy'n agored i'w archwilio.

### **Safbwyntiau Dysgwyr yng Nghymru: Canfyddiadau Athrawon**

Yng Nghymru, mae'r trafodaethau am gymhelliad dysgwyr i ddysgu leithoedd Rhyngwladol wedi esgor ar ddarlun negyddol braidd, a adroddwyd yn bennaf drwy ganfyddiadau athrawon. Penderfynwyd bod y darlun anfrwdfrydig hwn wedi cael effaith ganlyniadol ar y nifer sy'n dilyn cyrsiau TGAU (Board a Tinsley, 2017, 9;

- 6 Mae ymchwil ddiweddar ar ganfyddiadau dysgwyr o ddysgu Cymraeg fel ail iaith wedi tynnu ar waith Dörnyei (2009) (Gweler Rhys a Smith, 2022).
- 7 Mae Henry (2017, 549) yn sôn am yr hunan amlieithog delfrydol fel estyniad o'r System Hunan Cymhellol L2.
- 8 Ar gyfer unigolion amlieithog sydd ag ail iaith eisoes ac sy'n dysgu trydedd iaith, mae Bui (2023) yn cynnig system cymhelliad deuol L2-L3.

Tinsley, 2018, 52; Tinsley, 2019a, 30). Yn *Tueddiadau leithoedd yng Nghymru 2019*, nododd athrawon fod anhawster canfyddedig y TGAU newydd, a gyflwynwyd gyntaf yn 2018 ac a alwyd yn leithoedd Tramor Modern, yn broblem fawr i ddysgwyr (Tinsley 2019a, 20). Yn adroddiad Estyn (2009, 24) *Gwella leithoedd Tramor Modern yn Ysgolion Uwchradd Cymru*, adroddodd ysgolion fod dysgwyr yn dechrau colli diddordeb yn y pwnc gan fod leithoedd Tramor Modern yn dod yn fwyfwy anodd tuag at Flwyddyn 9. Felly, mae archwilio safbwyntiau dysgwyr ynghylch anhawster canfyddedig leithoedd Rhyngwladol yn ganolog i'r astudiaeth hon. Yn ogystal, mewn adroddiadau *Tueddiadau leithoedd Cymru* olynol, mae'r awduron wedi nodi bod leithoedd Rhyngwladol yn cael eu tanbrizio. Mae'r athrawon a ymatebodd o'r farn bod pynciau STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg) yn cael eu blaenoriaethu dros bynciau iaith yn eu hysgolion (Tinsley, 2018, 36; Tinsley, 2019a, 27), gyda'r dysgwyr ddim yn gweld 'cysylltiad sgiliau' rhwng ieithoedd ac amrywiaeth o yrfaedd yn y dyfodol (Tinsley, 2019a, 27). Fe wnaeth y duedd yma barhau yn *Tueddiadau leithoedd Cymru 2022*, gydag athrawon ysgolion uwchradd yn cyfeirio at ddiffyg hyrwyddo gyrfaedd gydag ieithoedd a sut y mae hyn yn llesteirio a rhwystro dewisiadau cadarnhaol gan ddysgwyr (Collen et al., 2022, 30). Mae effaith cyfuno Cymraeg ac leithoedd Rhyngwladol fel ieithoedd 'eraill' ar gyfer dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg hefyd yn nodwedd fynych mewn adroddiadau *Tueddiadau leithoedd Cymru*. Er enghraifft, gan fod Cymraeg yn bwnc gorfodol mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, mae rhai athrawon leithoedd Rhyngwladol yn credu bod dysgwyr yn gweld Cymraeg fel yr iaith 'arall' ac nad ydynt yn teimlo bod angen astudio leithoedd Rhyngwladol ar lefel TGAU, yn ogystal â'r ffaith bod y naill bwnc a'r llall yn cystadlu am amser yn y cwricwlwm (Board a Tinsley, 2016, 47; Tinsley, 2018, 16). Mae'r canfyddiad hwn yn gwneud archwilio canfyddiad dysgwyr o leithoedd Rhyngwladol mewn perthynas â phynciau eraill, a Chymraeg a Saesneg yn benodol, yn bwynt trafod pwysig.

## **Safbwyntiau Dysgwyr yng Nghymru**

### ***Safbwyntiau Dysgwyr ynghylch Astudio leithoedd Rhyngwladol***

Mae'r llenyddiaeth yng Nghymru ar gymhelliad dysgwyr i ddysgu leithoedd Rhyngwladol wedi canolbwyntio'n bennaf ar safbwyntiau athrawon. Tra bod

prosiectau ymchwil gwerthfawr wedi'u cynnal ar safbwyntiau a chymhelliad dysgwyr (e.e. Jepson, 2020; Jones, 2021), ceir ymchwil feintiol gyfyngedig i roi darlun mawr o safbwyntiau o'r fath yng Nghymru (Jones, 2023b). Un astudiaeth ansoddol sydd ar gael yw adroddiad *leithoedd Tramor Modern* Estyn (2016) a ofynnodd i ddysgwyr 13–16 oed (Blynnyddoedd 9, 10 ac 11) am eu safbwyntiau ynghylch leithoedd Rhyngwladol.

Nododd nifer o ddysgwyr Blwyddyn 9 eu bod yn hoffi dysgu ieithoedd ac roeddent yn cydnabod pwysigrwydd cymryd opsiwn iaith ar lefel TGAU i wella eu rhagolygon gyrfa neu i fynd i'r brifysgol (Estyn, 2016, 20). Ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 10 ac 11 a oedd wedi dewis astudio leithoedd Rhyngwladol ar lefel TGAU, roedd y rhesymau'n cynnwys eu cariad at y pwnc, a'i ddefnyddioldeb ar gyfer bywyd y tu hwnt i'r ysgol (Estyn, 2016, 21). Ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 10 ac 11 nad oeddent wedi dewis astudio leithoedd Rhyngwladol ar lefel TGAU, y rhesymau oedd nad oeddent yn mwynhau'r pwnc, anhawster yng Nghyfnod Allweddol 3 a'r ffaith eu bod eisiau dewis pwnc arall oherwydd eu bod eisoes yn dysgu Cymraeg fel ail iaith (Estyn, 2016, 21).

Yn astudiaeth arolwg Jones (2023b) o 860 o ddysgwyr mewn 10 ysgol uwchradd yng Nghymru, mae'n cadarnhau rhai o'r tueddiadau o adroddiadau blaenorol, gan amlygu yn fwy na dim effaith blychau opsiynau ac amserlenni caeth sy'n cymell dysgwyr i beidio â dewis ieithoedd. Nododd canfyddiadau ei holiadur i ddysgwyr cyn TGAU y byddai 33 y cant yn rhagor o'r dysgwyr a holwyd wedi dewis astudio leithoedd Rhyngwladol o bosibl pe bai'r blychau opsiynau yn fwy ffafriol i ieithoedd (Jones, 2023b, 77). Er bod cwestiynau ynghylch anhawster y pwnc a'r meddylfryd 'mae Saesneg yn ddigon' yn sgil Brexit yn bresennol yng ngharfan Jones, mae ei hastudiaeth yn nodi pwysau'r ffactorau penderfynu eraill ar ddewisiadau dysgwyr, fel amserlenni a blychau opsiynau cyfyngedig ysgolion (Jones, 2023b). Heriodd carfan dysgwyr Jones y syniad hefyd bod astudio Cymraeg yn rhwystr i ddysgu ieithoedd eraill; dim ond 12 o'r 860 o ddysgwyr a nododd bod dysgu Cymraeg wedi eu harwain i beidio ag astudio iaith Rhyngwladol ar lefel TGAU (Jones, 2023b, 81). Mae ymchwil Jones a'n hymchwil ni yn amlygu, felly, y gwahaniaeth rhwng safbwyntiau athrawon a dysgwyr ynghylch dysgu ieithoedd mewn ysgolion yng Nghymru, ac yn atgyfnerthu gwerth nodi safbwyntiau dysgwyr ar raddfa eang.

### ***Safbwynt Dysgwyr yng Nghymru: Beth Allwn ei Ddysgu o Ymchwil i'r Gymraeg?***

Mewn cyferbyniad â'r diffyg ymchwil ar gymhelliad dysgwyr i ddysgu leithoedd Rhyngwladol, ceir data mwy hygyrch ar agweddau dysgwyr tuag at ddysgu Cymraeg

(e.e. Jones, 2019; Rhys a Smith, 2022; Thomas et al., 2014). Mae astudiaethau o'r fath yn amlygu'r berthynas rhwng y Gymraeg a chanfyddiad dysgwyr o'i fuddion economaidd (Jones, 2019; Thomas et al., 2014). Er enghraifft, archwiliodd Jones (2019) safbwyntiau dysgwyr 15 ac 16 oed (Blynnyddoedd 10 ac 11) o aelwydydd Saesneg eu hiaith gan mwyaf sy'n mynychu ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg. Yn yr astudiaeth hon, cydnabu dysgwyr â gogwydd academiaidd y gallai astudio yn Gymraeg gynyddu eu cyflogadwydd ar ôl graddio o Addysg Uwch, er bod y rhan fwyaf ohonynt yn dewis astudio drwy gyfrwng y Saesneg yn y brifysgol (Jones, 2019, 268). Mae'n bwysig cydnabod yr opsiynau cyfyngedig i astudio yn y brifysgol drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, mae gwaith pwysig yn cael ei wneud, sydd wedi'i ariannu'n bennaf drwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, i hyrwyddo a galluogi astudiaethau prifysgol drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal, yn astudiaeth Jones (2019, 268), cyfeiriodd dysgwyr â gogwydd galwedigaethol at fanteision astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y farchnad lafur. Mewn astudiaeth gan Rhys a Smith (2022), archwiliwyd canfyddiadau dysgwyr mewn ysgolion uwchradd o Gymraeg a addysgir fel ail iaith gan ddefnyddio data arolwg a grwpiau ffocws. Mae eu dadansoddiad yn dangos, wrth i'r dysgwyr symud drwy'r ysgol, bod eu hoffter o Gymraeg a addysgir fel ail iaith yn lleihau (Rhys a Smith, 2022, 15). Mae hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau Coleman et al. (2007, 260) fod hoffter o leithoedd Tramor Modern yn lleihau drwy addysg uwchradd yn Lloegr. Felly, er bod y cyd-destunau ar gyfer addysgu Cymraeg ac leithoedd Rhyngwladol yn amrywio, ceir gorgyffwrdd posibl o ran cymhelliad ac agweddau dysgwyr. Mae'r erthygl hon yn cynnig y gallai deall mwy am safbwyntiau dysgwyr ieithoedd helpu llunwyr polisi ac arweinwyr ieithyddol yng Nghymru i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i ddysgwyr ymgysylltu â'r Cwricwlwm i Gymru newydd ar gyfer y Gymraeg ac leithoedd Rhyngwladol.

### **Cwestiynau Ymchwil**

Hyd yn hyn, mae'r erthygl hon wedi mynd â'r darlennydd drwy archwiliad o'r cyd-destun polisi ac ymarfer yng Nghymru, yn ogystal â gwaith ymchwil perthnasol. Mae pwyntiau allweddol yn codi o'r archwiliad hwn: yn gyntaf, ceir diffyg ymchwil cymharol ar beth sy'n cymhell dysgwyr i astudio (neu beidio ag astudio) leithoedd Rhyngwladol ar lefel TGAU yng Nghymru. Mae ymchwil o'r fath yn hanfodol o gofio'r gostyngiad sefydledig yn y nifer sy'n astudio leithoedd Rhyngwladol ar lefel

TGAU yng Nghymru (Duff et al., 2024, 7). Yn ail, ceir prinder data ar ganfyddiad dysgwyr o'r berthynas rhwng Saesneg, leithoedd Rhyngwladol a'r Gymraeg fel maes cwricwlwm cyfunol newydd (Llywodraeth Cymru, 2021a). Bydd deall sut y mae ieithoedd yn ein cysylltu yn hanfodol ar gyfer cefnogi ethos amlieithog y Cwricwlwm i Gymru newydd. Yn drydydd, er bod y llenyddiaeth gyffredinol ar gymhelliad dysgwyr yn y DU yn cyfeirio at anhawster leithoedd Rhyngwladol fel pwnc (e.e. Lanvers, 2017, 521), mae'r ymchwil yng Nghymru'n awgrymu nad dyma'r prif rwystr i astudio leithoedd Rhyngwladol ar lefel TGAU o bosibl (e.e. Jones, 2023b, 79). Felly mae angen astudio sut a pham y mae dysgwyr yn cael eu cymell i astudio ieithoedd ymhellach. Mae'r tri chwestiwn ymchwil a ganlyn yn strwythuro ein dadansoddiad:

1. Beth sy'n cymell dysgwyr Blwyddyn 8 a 9 mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru i astudio (neu beidio ag astudio) leithoedd Rhyngwladol ar lefel TGAU?
2. Beth yw canfyddiad dysgwyr Blwyddyn 8 a 9 mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru o leithoedd Rhyngwladol o gymharu â phynciau eraill, yn benodol Cymraeg a Saesneg?
3. Beth yw safbwyntiau dysgwyr Blwyddyn 8 a 9 mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru ynghylch anhawster mewn perthynas ag leithoedd Rhyngwladol fel pwnc?

### **Ystyriaethau Methodolegol a Safbwynt Ymchwilwyr**

Mae'r erthygl hon yn seiliedig ar ganfyddiadau holiadur a ddatblygwyd gan y prisoect Mentora ITM. Bu'r prosiect allgymorth mentora iaith yn weithredol yng Nghymru ers 2015. Mae'r prosiect Mentora ITM wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru i gynyddu nifer y dysgwyr yng Nghymru sy'n astudio leithoedd Rhyngwladol ar lefel TGAU. Mae'r prosiect Mentora ITM yn dosbarthu holiadur blynyddol i gefnogi'r broses o ddewis dysgwyr i gael eu mentora mewn ysgolion ac i gasglu darlun o gymhellion a bwriadau dysgwyr o ran dysgu ieithoedd. Mae'r data hyn yn sail i strategaethau i gynyddu'r nifer sy'n astudio leithoedd Rhyngwladol yng Nghymru, sy'n dylanwadu ar ddyluniad adnoddau mentora a hyfforddiant mentoriaid. Er bod y rhaglen yn coladu data o'r fath i gefnogi a gwella cyflawniad y prosiect, mae ganddi werth yma ar gyfer ymchwil ar sail ymarfer. Mae tîm y prosiect wedi mabwysiadu pragmatiaeth fel fframwaith ar gyfer y gwaith ymchwil, sy'n ystyried yr hyn a ganlyn:

‘theories, concepts, ideas, hypotheses and research findings not in an abstract form, but in terms of the roles they play as instruments of thought and action, and in terms of their practical consequences in specific contexts’ (Saunders et al., 2019, 151).

Mae hyn yn bwysig o gofio canlyniadau gweithio gyda data o ysgolion yn y byd go iawn a’r ffaith bod 3 o’r 4 awdur a ysgrifennodd yr erthygl hon yn rhan o’r prosiect Mentora ITM.

Mae pwyslais ar bragmatiaeth yn caniatáu i dîm y prosiect benderfynu beth fydd yn gweithio orau i’r prosiect, gan ddeall hefyd gyd-destun ehangach a phenodol dysgwyr ac athrawon fel chwaraewyr allweddol sy’n llunio gorffennol, presennol a dyfodol dysgu leithoedd Rhyngwladol ledled Cymru. Mabwysiadwyd y dull pragmataidd hwn yn gynnar yn nyluniad y prosiect drwy gomisiynu gwerthusiadau allanol dulliau cymysg (Rushton a Thomas, 2020; Thomas, 2022; Tinsley, 2017; Tinsley, 2019b) a oedd yn ceisio deall yn well yr effaith yr oedd y prosiect yn ei chael ar ddysgwyr ac athrawon. Mae canfyddiadau o’r gwerthusiadau hyn wedi hysbysu iteriadau amryfal o’r un prosiect, yn ogystal â dylanwadu ar ddyluniad prosiectau cysylltiedig gan gynnwys y Prosiect Peilot Mentora Caru Darllen, a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gwella llythrennedd mewn ysgolion cynradd yng Nghymru. Drwy weithio mewn modd pragmataidd gyda chwaraewyr allweddol fel athrawon a dysgwyr, rydym yn gweithio ar y sail bod gwybodaeth yn seiliedig ar brofiad ac, yn ail, mae’n annog yr ymchwilwyr i ddadansoddi arferion sefydliadau drwy brofiad yn ogystal â gweithredu (Kelly a Cordeiro, 2020, 4). Mae hyn wedi caniatáu i’r prosiect seiliedig ar ymarfer hwn fabwysiadu dull hunanfyfyrliol a llunio gwybodaeth ddefnyddiol y gellir ei rhoi ar waith (Kelly a Cordeiro, 2020, 4). Mae hyn yn hysbysu’r broses o wella prosesau a chynnwys y prosiect yn barhaus, gan wella’r wybodaeth yn y dirwedd ehangach hefyd, ac mae’n cydnabod cymeradwyaeth o flaen llaw o’r gwerthoedd craidd sy’n sail i’r prosiect (Holmwood, 2014).<sup>9</sup>

### **Dyluniad yr Arolwg**

Cafodd y data y mae’r erthygl hon yn tynnu arno ei goladu rhwng mis Hydref 2021 a mis Ionawr 2022 o’r holiadur blynyddol a ddosbarthwyd ymhlith ysgolion partner y

9 Mae hyn wedi’i amlinellu yn natganiadau cenhadaeth a gweledigaeth gwefan prosiect Mentora ITM: <https://mflmentoring.co.uk/>.

prosiect Mentora ITM. Data'r arolwg hwn yw'r set ddata hysbys fwyaf sy'n ymwneud â chymhelliad dysgwyr yng Nghymru i ddysgu leithoedd Rhyngwladol. Ers 2015, defnyddiwyd holiadur blynyddol i gefnogi dethol dysgwyr a chyflawni'r prosiect. Mae canlyniadau'r arolwg wedi'u defnyddio at ddibenion ymchwil gyda'r gymeradwyaeth foesegol briodol gan Brifysgol Caerdydd ers 2019 (ac eithrio 2020 pan na chynhaliwyd arolwg oherwydd y pandemig Covid-19).<sup>10</sup> Ers 2021, mae'r prosiect wedi cynnal holiadur blynyddol drwy Qualtrics fel proses ar-lein; defnyddiwyd holiaduron papur a meddalwedd ar-lein SurveyMonkey ym mlyneddodd cynnar y prosiect. Mae'r holiadur blynyddol yn cael ei lenwi gan ddysgwyr Blwyddyn 8 neu Flwyddyn 9 (13 a 14 oed) yn eu hysgolion uwchradd, gyda chymorth athrawon. Mae'r holiadur ar gael yn Saesneg a Chymraeg. Mae'r dysgwyr sy'n ateb yr holiadur yn gwneud eu dewisiadau ar gyfer TGAU o fewn y flwyddyn academaidd honno. Mae'r data'n ceisio nodi'r dysgwyr sy'n ddifater ynghylch astudio laith Ryngwladol ymhellach neu'n gyndyn o wneud hynny. Dyma'r grŵp targed ar gyfer yr ymyrraeth mentora.

Dyluniwyd yr holiadur fel ei bod yn cymryd tua 10 munud i ddefnyddwyr ei gwblhau ac mae'n cynnwys hyd at 52 o gwestiynau gan ddibynnu ar ba lwybr a ddefnyddir ar sail yr atebion a roddir. Mae angen ymateb ar gyfer y mwyafrif o'r cwestiynau, a cheir adrannau testun agored dewisol. Mae'r holiadur yn cynnwys pum rhan: manylion y dysgwyr (gwybodaeth ddemograffig), ieithoedd y dysgwyr, teithio dramor, pynciau ac amgylchedd yr ysgol, ac ieithoedd a'r dyfodol. Bu datblygiad y cwestiynau'n broses iteraidd dros wyth mlynedd, a bydd yr arolwg yn cael ei ddiweddarau a'i fireinio bob blwyddyn mewn ymateb i adborth gan ddefnyddwyr, yn unol â'r dull pragmataidd a amlinellwyd uchod. Mae'r holiadur yn cynnwys cwestiynau caeedig yn bennaf ac mae angen ymatebion i gwestiynau allweddol (gweler Blair et al., 2014), fel, 'Ydych chi'n dymuno astudio TGAU mewn leithoedd Rhyngwladol?'. Mae hyn yn llywio'r broses o ddethol dysgwyr ar gyfer yr ymyriad. Mae gan y rhan fwyaf o'r cwestiynau caeedig categorïau ymateb trefnol, er enghraifft, graddau Likert. Defnyddir cwestiynau amlddewis a chwestiynau graddio hefyd. Cafodd y set ddata ar gyfer yr erthygl hon ei lawrlwytho o Qualtrics i Excel i'w dadansoddi i ganfod patrymau yn ymatebion y dysgwyr. Cafodd yr ymatebion

<sup>10</sup> Ysgol Ieithoedd Modern, Pwyllgor Moeseg Ymchwil yr Ysgol, 'Y Prosiect Ieithoedd Tramor Modern', cymeradwywyd ar 14 Medi 2020: cyfeirnod: 202021/002.

gan unigolion a oedd wedi cwblhau o dan 40 y cant o'r cwestiynau ar draws y gyfres gyfan eu dileu. Cafodd enwau dysgwyr unigol eu hepgor o'r holl ymatebion i sicrhau na ellid adnabod dysgwyr unigol.

### **Cyfranogiad a Phroffiliau Cyfranogwyr**

Mae ymatebion gan 5803 o ddysgwyr o Flwyddyn 8 a Blwyddyn 9 ar draws 64 o ysgolion uwchradd wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad.<sup>11</sup> Mae'r set ddata'n cynnwys dysgwyr o 72 y cant o ysgolion cyfrwng Saesneg (n=46 ysgolion), 19 y cant o ysgolion dwyieithog (n=12) a 9 y cant o ysgolion cyfrwng Cymraeg (n=6). Mae'r sampl yn cynnwys 23 y cant (n=1353) o ddysgwyr Blwyddyn 8 a 77 y cant (n=4450) o ddysgwyr Blwyddyn 9. O'u rhannu ar sail rhywedd, mae'r sampl yn cynrychioli'r canlynol: dysgwyr gwrywaidd, 47 y cant (n=2753), dysgwyr benywaidd, 48 y cant (n=2764), ac mae dysgwyr sy'n uniaethu mewn ffordd arall neu y mae'n well ganddynt beidio â dweud yn cwmpasu 5 y cant (n=286) o'r sampl. Lle nad yw'r dadansoddiad o'r data wedi'i rannu ar sail rhywedd, mae'r holl ymatebwyr wedi'u cynnwys. Gofynnwyd hefyd i'r cyfranogwyr nodi eu hethnigrwydd yn yr holiadur. Roedd 12 y cant (n=676) o'r holl gyfranogwyr wedi nodi eu bod yn Ddu, yn Asiaidd a Lleiafrif Ethnig a nododd 88 y cant (n=5127) eu bod yn Wyn. Gweler Tablau 1–4 ar gyfer ystadegau proffil disgyblion.

**Tabl 1: Cyfrwng ysgol y dysgwyr a gymerodd ran yn yr arolwg llinell sylfaen i ddysgwyr**

| Cyfanswm yr ymatebwyr: 5803 o ddysgwyr |                 |            |                 |
|----------------------------------------|-----------------|------------|-----------------|
| Cyfrwng yr ysgol                       | Cyfrwng Saesneg | Dwyieithog | Cyfrwng Cymraeg |
| Nifer yr ysgolion                      | 46 ysgol        | 12 ysgol   | 6 ysgol         |
| % yr ysgolion                          | 71.86           | 18.75      | 9.38            |

<sup>11</sup> Yn y dadansoddiad o'r erthygl hon (ar wahân i'r Tablau yn yr adran hon: Cyfranogiad a Phroffiliau Cyfranogwyr), mae'r canrannau wedi'u talgrynnu i rifau cyfan er darllenadwyedd, fel a wneir yn adroddiadau *Tueddiadau leithoedd Cymru* (gweler Duff et al., 2014; Collen et al., 2022).

**Tabl 2: Rhaniad grŵp blwyddyn y dysgwyr a gymerodd ran yn yr arolwg llinell sylfaen i ddysgwyr**

| Grŵp blwyddyn (5803 o ymatebion) |                    |                |
|----------------------------------|--------------------|----------------|
|                                  | Nifer yr Ymatebwyr | % yr Ymatebwyr |
| Blwyddyn 8                       | 1353               | 23.32          |
| Blwyddyn 9                       | 4450               | 76.68          |

**Tabl 3: Rhywedd a nodwyd gan y dysgwyr a gymerodd ran yn yr arolwg llinell sylfaen i ddysgwyr**

| Rhywedd (5803 o ymatebion)    |                    |                |
|-------------------------------|--------------------|----------------|
|                               | Nifer yr Ymatebwyr | % yr Ymatebwyr |
| Benywaidd                     | 2764               | 47.63          |
| Gwrywaidd                     | 2753               | 47.44          |
| Uniaethu mewn ffordd arall    | 141                | 2.43           |
| Gwell ganddynt beidio â dweud | 145                | 2.50           |

**Tabl 4: Yr ethnigrwydd a nodwyd gan y dysgwyr a gymerodd ran yn yr arolwg llinell sylfaen i ddysgwyr**

| Ethnigrwydd (5803 o ymatebion)                 |                    |                |
|------------------------------------------------|--------------------|----------------|
|                                                | Nifer yr Ymatebwyr | % yr Ymatebwyr |
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig                  | 241                | 4.15           |
| Du, Affricanaidd, Caribiaidd neu Ddu Prydeinig | 98                 | 1.69           |
| Grwpiau Ethnig Cymysg neu Luosog               | 207                | 3.57           |
| Gwyn                                           | 5127               | 88.35          |
| Grŵp Ethnig Arall                              | 130                | 2.24           |

### Dadansoddiad o Ddata'r Arolwg

Defnyddiwyd dadansoddiad ystadegol disgrifiadol ar Excel i nodi'r tueddiadau mewn ystadegau allweddol drwy gasglu y cyfansymiau canrannol ar draws yr holl

ymatebion. Er bod cyfyngiadau i'r dadansoddiad disgrifiadol o ran gallu dod i gasgliadau ehangach, roedd yn ddefnyddiol ar gyfer canfod tueddiadau cyffredinol yn y data, yn ogystal â darparu sail ar gyfer deall safbwyntiau'r garfan. Er bod yr holiadur cyffredinol yn cynnwys hyd at 52 o gwestiynau caeedig a phenagored, yn dibynnu ar y pwnc, dim ond cwestiynau penodol a ddadansoddiwyd ar gyfer yr astudiaeth hon. Mae hyn oherwydd bod yr erthygl hon yn canolbwyntio ar y cymhelliad a'r rhwystrau i ddewis laith Ryngwladol ar lefel TGAU, safbwyntiau ar gysylltiadau rhwng pynciau a safbwyntiau ar anhawster pynciau, yn hytrach na dyheadau gyrfaol neu agweddau at deithio dramor, sy'n bynciau y mae'r holiadur yn eu trafod a allai gynhyrchu data cyfoethog ar gyfer ymchwil yn y dyfodol. Felly, roedd yr holl gwestiynau a ddadansoddiwyd ar gyfer yr erthygl hon yn gaeedig ar wahân i un (Cwestiwn 46) (ewch i'r Atodiad i weld rhestr o'r cwestiynau a ddadansoddiwyd). Lle y bo'n briodol, cafodd yr ymatebion eu croesgyfeirio â ffynonellau data cenedlaethol eraill, fel StatsCymru, neu â chanlyniadau o gwestiynau eraill yr arolwg. Lle y gallai trawsgyfeirio gynnig mewnwelediadau ychwanegol, er enghraifft, safbwyntiau ar sail demograffeg ynghylch ieithoedd. Lle y bo'n briodol, defnyddiwyd ystadegau cenedlaethol a gyhoeddwyd i ddarparu cyd-destun ehangach i'r canfyddiadau a drafodir. Mae'r rhan nesaf yn archwilio, felly, y canfyddiadau o'r set ddata mewn perthynas â thri maes: yr hyn a ddywedodd y dysgwyr sy'n eu cymell i ddewis leithoedd Rhyngwladol ac yn eu datgymell rhag dewis astudio laith Ryngwladol ar lefel TGAU, cysylltiadau â phynciau eraill y cwricwlwm ac anhawster canfyddedig dysgu leithoedd Rhyngwladol.

### *Yr ysgogwyr a'r rhwystrau o ran dewis TGAU mewn leithoedd Rhyngwladol*

Yn yr holiadur, gofynnwyd i'r dysgwyr, 'A ydych yn dymuno astudio TGAU mewn leithoedd Rhyngwladol?' ac fe'u hatgoffwyd bod leithoedd Rhyngwladol yn cynnwys Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg ond nid y Gymraeg neu Saesneg. Cafwyd 5705 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Mae'r data'n dangos bod 16 y cant (n=935) o'r dysgwyr hyn wedi ymateb gyda 'ydw yn bendant' (n=313) neu 'ydw fwy na thebyg' (n=622) i'r cwestiwn hwn.<sup>12</sup> Yn ôl StatsCymru (Llywodraeth Cymru, 2023c), y

<sup>12</sup> Dewisodd 32 y cant o ymatebwyr 'efallai' (n=1799) i'r cwestiwn hwn ond ni ofynnwyd iddynt ddewis rhesymau dros eu hancicrwydd ynghylch dewis laith Ryngwladol ar gyfer TGAU.

ganran gyfartalog genedlaethol a astudiodd TGAU mewn leithoedd Rhyngwladol yng Nghymru yn 2021/22 oedd 14.4 y cant. Felly, mae'r canfyddiadau hyn yn adlewyrchu'r duedd genedlaethol. O'r rheini a ddywedodd y byddant yn bendant neu fwy na thebyg yn dewis astudio iaith Ryngwladol ar lefel TGAU (n=935), roedd 56 y cant wedi nodi eu bod yn ferched (n= 524) ac roedd 38 y cant wedi nodi eu bod yn fechgyn (n=354). Yn ogystal, roedd 16 y cant (n=146) o'r rheini a nododd y byddant yn bendant neu fwy na thebyg yn dewis iaith Ryngwladol wedi nodi eu bod yn Ddu, Asiaidd a Lleiafrif Ethnig, o gymharu â'r 84 y cant (n=789) a nododd eu bod yn Wyn.

Gofynnwyd wedyn i'r dysgwyr hynny a nododd ffafriaeth tuag at ddewis leithoedd Rhyngwladol, 'Beth sy'n gwneud i chi fod eisiau astudio leithoedd Rhyngwladol ar lefel TGAU?'. Roeddent yn gallu dewis o blith 16 o ddatganiadau, yn ogystal â chynnig sylwadau drwy ddewis 'arall'.<sup>13</sup> O'r dysgwyr a ddewisodd 'ydw yn bendant' neu 'ydw fwy na thebyg' i ddewis iaith Ryngwladol ar lefel TGAU (n=935), dewisodd 79 y cant (n=737) o'r dysgwyr hyn y rheswm 'mae'n ddefnyddiol', gyda 61 y cant (n=566) hefyd yn dewis 'rydw i eisiau teithio' a nododd 60 y cant (n=562) 'bydd yn fy helpu i gael swydd'. Nododd ychydig dros hanner y dysgwyr hyn, 56 y cant (n=522 o ymatebion), ei fod oherwydd eu bod yn meddwl bod leithoedd yn 'hwyl', tra bod ychydig llai na hanner (45 y cant, n=420) y dysgwyr hyn wedi dweud ei fod oherwydd 'rwy'n dda yn y pwnc'. Roedd y ffactorau llai poblogaidd yn cynnwys dylanwad eraill: dim ond 5 y cant (n=51) a gytunodd â'r datganiad 'mae fy ffrindiau yn ei wneud'; dim ond 16 y cant a ddewisodd 'mae fy athro yn credu ei fod yn syniad da' (n=147); a dewisodd 30 y cant 'mae fy rhieni yn credu ei fod yn syniad da' (n=278).

Dewisodd 52 y cant (n=2971) o'r dysgwyr a ymatebodd 'annhebygol' neu 'bendant ddim' fel ateb i'r cwestiwn, 'A ydych yn dymuno astudio TGAU mewn leithoedd Rhyngwladol?'. O'r rheini a ddywedodd y byddent yn annhebygol o ddewis astudio iaith Ryngwladol ar lefel TGAU neu'n bendant ddim yn gwneud hynny (n=2971), nododd 43 y cant eu bod yn ferched (n=1265) a nododd 53 y cant

<sup>13</sup> Mae'r datganiadau hyn yn tynnu ar ffactorau 'tynnu a gwrthio' hysbys ar gyfer dysgwyr fel y'u trafodwyd mewn adroddiadau *Tueddiadau leithoedd Cymru* ers 2015. Gallai dysgwyr ddewis datganiadau lluosog. Mae'r canrannau yma yn cynrychioli, felly, ymatebion dysgwyr i ffactorau unigol. Nid yw'r datganiad 'arall' a'i ymatebion penagored wedi'u dadansoddi yn yr erthygl hon.

eu bod yn fechgyn (n=1564). Yn ogystal, nododd 10 y cant (n=292) o'r rheini a nododd y byddent yn annhebygol o astudio iaith ryngwladol neu'n bedant ddim yn gwneud hynny eu bod yn Ddu, Asiaidd a Lleiafrif Ethnig, o gymharu â 90 y cant (n=2679) a nododd eu bod yn Wyn.

Roedd yn rhaid i'r 2971 o ddysgwyr hyn a ddewisodd 'annhebygol' neu 'bendant ddim' wedyn ddewis y rhesymau pam nad oeddent eisiau dysgu iaith Ryngwladol ar lefel TGAU. Eto, rhoddwyd 16 o ddatganiadau i'r dysgwyr i ddewis o'u plith a gallent ddewis cynifer o ddatganiadau ag a oedd yn berthnasol iddynt, yn ogystal â chynnig sylwadau ychwanegol drwy ddewis 'arall'.<sup>14</sup> Nododd 51 y cant o'r dysgwyr hyn mai'r rhwystr mwyaf oedd 'mae'n ddiflas' (n=1514). Yr ail a'r trydydd datganiad a ddewiswyd amlaf oedd: 'mae'n well gen i wneud rhywbeth arall' gan 47 y cant o'r ymatebwyr (n=1395), a 'nid wy'n dda yn y pwnc' gan 47 y cant (n=1385) hefyd. Dewisodd 35 y cant (n=1050) o'r dysgwyr hyn 'mae'n rhy anodd' a nododd lleiafrif ei fod oherwydd eu bod yn gorfod dewis Cymraeg fel pwnc, sef 15 y cant (n=438). Nid oes fawr o dystiolaeth o ymatebion o'r fath i awgrymu bod dysgwyr yn gweld y ffaith y byddant yn astudio Cymraeg ar lefel TGAU fel rhwystr i ddewis iaith Ryngwladol ar lefel TGAU, sef canfyddiad sy'n cyd-fynd â chanfyddiad Jones yn ei gwaith ymchwil diweddar (2023b, 80–1).

Gofynnwyd i'r dysgwyr yn ddiweddarach a oeddent yn credu y bydd 'Pynciau eraill yn gwella fy nghyfleoedd gyrfaol yn fwy nag leithoedd Rhyngwladol'. O'r 5331 o ymatebion, roedd 71 y cant o'r ymatebwyr yn cytuno'n gryf (n=1565) neu'n cytuno (n=2224) y byddai pynciau eraill yn gwella eu cyfleoedd gyrfaol yn fwy nag leithoedd Rhyngwladol. Gofynnwyd wedyn i'r dysgwyr hynny nodi *pa bynciau* fyddai'n gwella eu cyfleoedd gyrfaol yn fwy nag leithoedd Rhyngwladol. Roedd dysgwyr yn gallu dewis o blith amryw o bynciau yn eu hymateb. Ymatebodd 3942 o'r dysgwyr i'r cwestiwn hwn gyda phynciau a ddewiswyd yn unigol 21214 o weithiau. Dangosodd y canlyniadau mai dim ond 1026 o weithiau y dewiswyd y Gymraeg (5 y cant), a wnaeth yn well na Chelf (n=782), Drama (n=556), Cerddoriaeth (n=518) ac Addysg Grefyddol (n=639), ond roedd yn sylweddol is na Saesneg (n=3208), Mathemateg (n=3209) a Gwyddoniaeth (n=2752). Mae hyn yn

<sup>14</sup> Gallai'r dysgwyr ddewis amryw o ddatganiadau. Mae'r canrannau yma felly'n cynrychioli ymatebion dysgwyr i ffactorau unigol. Ni ddadansoddwyd y datganiad 'arall' a'i ymatebion penagored yn yr erthygl hon.

amlygu'r gwerth mawr y mae dysgwyr yn ei roi i bynciau STEM o ran gyrfaedd, a'r gwerth is a roddir i bynciau'r dyniaethau a'r celfyddydau mynegiannol, ar wahân i Saesneg.


Ac eto dangosodd y dysgwyr gryn ddiddordeb mewn dysgu ieithoedd eraill, gyda 51 y cant (n=2962) o'r *holl* ddysgwyr yn ateb 'oes' i'r cwestiwn: 'A oes ieithoedd eraill yr hoffech eu dysgu nad ydynt ar gael yn eich ysgol?'. Mae hyn yn cynrychioli tair gwaith nifer y dysgwyr a nododd y byddent yn bendant/mwy na thebyg yn dewis iaith Ryngwladol ar lefel TGAU (16 y cant, n=935). Yna gofynnwyd i'r 2962 o ymatebwyr hyn, 'Pa iaith/ieithoedd yr hoffech eu dysgu nad ydynt ar gael yn eich ysgol?'. Dadansoddwyd yr ymatebion penagored i benderfynu pa atebion a ddewiswyd yn fwyaf rheolaidd, ac yna fe'u rhestrwyd mewn trefn. Y pum iaith fwyaf poblogaidd a ddewiswyd oedd: Sbaeneg (1), Almaeneg (2), Japaneeg (3), Eidaleg (4), a Rwseg (5). Mae'r data'n nodi bod diddordeb mewn dysgu ieithoedd ond nid o reidrwydd y rheini sydd ar gael o fewn cwricwlwm yr ysgol yn unig.

### *Cysylltiadau â Phynciau Eraill*

Ceisiodd yr holiadur ddeall y berthynas a'r cysylltiadau rhwng ieithoedd Rhyngwladol a 12 o bynciau eraill. Bydd dysgwyr yn penderfynu pa bynciau i barhau i'w hastudio ar gyfer yr arholiadau o blith blychau sy'n cael eu rheoleiddio drwy amserlenni ysgolion unigol. O'r herwydd, mae'r gydberthynas rhwng y pynciau o fewn blychau opsiynau'n ffactor pwysig o ran dewisiadau dysgwyr a'u penderfyniadau. Amlygodd *Tueddiadau Ieithoedd Cymru 2021*, er enghraifft, bryderon athrawon bod Ieithoedd Rhyngwladol fel pwnc yn yr un blychau â phynciau poblogaidd ac felly nid oedd yn cael ei ddewis (Collen et al., 2021, 21).

Gofynnodd yr holiadur o'r prosiect Mentora ITM i'r dysgwyr raddio 13 o bynciau, o'r un y maent yn ei fwynhau fwyaf, sef 1, i'r un y maent yn ei fwynhau leiaf, sef 13. Dewiswyd y 13 o bynciau ar sail y pynciau cwricwlwm swyddogol yn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Cymru) pan oedd yr holiadur yn fyw yn 2021/22 (Llywodraeth Cymru, 2019). Diwygiwyd y geiriad a'r amlinellad o'r meysydd pwnc i adlewyrchu'r meysydd pwnc unigol yn well ac i ddiweddarau'r derminoleg, er enghraifft defnyddio Ieithoedd Rhyngwladol yn hytrach nag Ieithoedd Tramor Modern. Cafwyd 5755 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Trwy gyfrifo cyfartaledd

**Ffigur 1: Safle cymedrig yr ymatebion i'r cwestiwn  
'Rhestrwch y pynciau hyn yn ôl faint rydych yn eu mwynhau',  
ar sail y cyfartaledd wedi'i bwysoli cyffredinol ar gyfer pob pwnc.**




wedi'i bwysoli pob sgôr, roedd modd pennu safle cymedrig pob maes pwnc, a ddangosir yn Ffigur 1.

Mae'r data'n dangos bod Saesneg wedi'i restru fel y pwnc sy'n cael ei fwynhau fwyaf, tra bod Cymraeg wedi'i restru fel y pwnc a fwyneir leiaf. Roedd leithoedd Rhyngwladol wedi gwneud yn well na'r Gymraeg ond roeddent wedi'u restru yn rhif 11 o ran mwynhad, uwchlaw Astudiaethau Crefyddol. Mae data o'r fath yn dangos safbwyntiau pegynol ar y tri phwnc sy'n cwmpasu'r Maes Dysgu a Phrofiad leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu. Mae'r rhestr hefyd yn amlygu mwynhad dysgwyr o'r pynciau dyniaethau, gyda thri o'r pedwar pwnc a fwyneir fwyaf wedi'u restru fel Saesneg, Celf, Addysg Gorfforol a Hanes. Mae'r pynciau STEM wedi'u lleoli yng nghanol y rhestr yn gyffredinol. Mae'r set ddata'n dangos bod 8 y cant (n=936) yn fwy o ddysgwyr gwrywaidd wedi nodi leithoedd Rhyngwladol fel y pwnc y maent yn ei hoffi leiaf na dysgwyr benywaidd (n=715) ar sail y rheini a nododd leithoedd Rhyngwladol fel un o'u tri dewis isaf (rhif 11, 12 neu 13). Mae hyn yn cadarnhau'r canfyddiadau ledled y sector bod dysgwyr

gwrywaidd yn llai tebygol o ddewis leithoedd Rhyngwladol ar lefel TGAU (Tinsley, 2018, 27).

Mewn cyferbyniad, pan ofynnwyd i'r dysgwyr ddangos faint roeddent yn mwynhau gwahanol wersi ar raddfa Likert, gydag 1 yn cynrychioli 'dim o gwbl' a 7 yn cynrychioli 'yn fawr iawn', dewisodd 33 y cant (n=1926) o'r ymatebwyr (n=5784) '5/6/7' ar gyfer leithoedd Rhyngwladol fel y nodir yn Ffigur 2. Mae hyn yn ddwywaith nifer y dysgwyr a nododd y byddent yn bendant/mwy na thebyg yn dewis leithoedd Rhyngwladol ar lefel TGAU. Mae hyn yn awgrymu bod cyfran fawr o ddysgwyr sy'n mwynhau leithoedd Rhyngwladol ond nad yw hyn yn trosi i ddewis y pwnc ar lefel TGAU. O'r dysgwyr a ymatebodd i'r cwestiynau hyn, roedd ffafriaeth tuag at bynciau STEM gyda 47 y cant (n=2746) yn dewis '5/6/7' ar gyfer Mathemateg a 54 y cant (n=3131) ar gyfer pynciau gwyddoniaeth (Ffiseg, Bioleg, Cemeg). Mae hyn yn gostwng i 26 y cant (n=1477) a ddewisodd '5/6/7' ar gyfer Cymraeg ac yn codi'n ddramatig i 56 y cant (n=3247) a ddewisodd '5/6/7' ar gyfer Saesneg. Mae'r canlyniadau hyn yn atgyfnerthu'r canfyddiadau bod mwynhau


*Ffigur 2: Sgoriau'r ymatebwyr o ran faint y maent yn mwynhau Saesneg, leithoedd Rhyngwladol a'r Gymraeg ar raddfa o 1 i 7, gydag 1 yn cynrychioli 'ddim o gwbl' a 7 yn cynrychioli 'yn fawr iawn'.*



ieithoedd yn wahanol fesul iaith, gyda Saesneg, leithoedd Rhyngwladol a'r Gymraeg yn perfformio'n wahanol ac wedi'u modiwlleiddio yn gymharol â phynciau eraill.

O gofio'r gwahaniaeth mewn safbwyntiau tuag at Saesneg, o gymharu ag leithoedd Rhyngwladol a'r Gymraeg, ceisiodd yr holiadur ddeall hefyd sut y mae dysgwyr yn cysylltu (neu ddim yn cysylltu) dysgu Saesneg a Chymraeg gyda dysgu leithoedd Rhyngwladol. Y cwestiynau a ofynnwyd i ganfod barn ar hyn oedd, 'I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau a ganlyn: 'Mae dysgu Cymraeg yn fy helpu i ddysgu leithoedd Rhyngwladol'; 'Mae dysgu Saesneg yn fy helpu i ddysgu leithoedd Rhyngwladol''. Atebodd ymatebwyr ar raddfa Likert 5 pwynt. Cafwyd 5712 o ymatebion i bob cwestiwn. Dangosodd yr ymatebion bod y dysgwyr hyn yn nodi'r cysylltiadau ieithyddol rhwng leithoedd Rhyngwladol a Saesneg, gyda 42 y cant (n=2373) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod Saesneg wedi'u helpu i ddysgu leithoedd Rhyngwladol. Mewn cyferbyniad, dim ond 28 y cant (n=1593) o'r dysgwyr hyn a oedd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod dysgu Cymraeg wedi'u helpu i ddysgu leithoedd Rhyngwladol fel y nodir yn Ffigur 3. Mae'r diffyg

**Ffigur 3: Ymatebion i'r cwestiynau 'Mae dysgu Cymraeg/Saesneg yn fy helpu i ddysgu leithoedd Rhyngwladol' mewn canrannau.**



cysylltiad rhwng y Gymraeg ac leithoedd Rhyngwladol yn ddiddorol o gofio, yn y sector cyfrwng Saesneg, er enghraifft, bod angen i athrawon a dysgwyr fabwysiadu addysgeg ail iaith gymharol ar gyfer y naill iaith a'r llall. Mae'r cysylltiad canfyddedig rhwng Saesneg ac leithoedd Rhyngwladol, ar y llaw arall, yn awgrymu'r angen i ddeall yn ddyfnach y ffactorau diwylliannol ac addysgegol sy'n dylanwadu ar safbwyntiau dysgwyr ar y cysylltiad rhwng pynciau penodol.


### Anhawster Canfyddedig

Trafodir anhawster pynciau'n eang o gofio'r heriau o ran y niferoedd sy'n dewis leithoedd Rhyngwladol yng nghyd-destun y DU a Chymru (Estyn, 2009, 24; Lanvers, 2017, 521; Tinsley, 2019a, 20). Yn yr holiadur, gofynnwyd i'r dysgwyr 'O gymharu â'ch pynciau eraill, pa mor anodd yw eich gwersi leithoedd


*Ffigur 4: Ymatebion i'r cwestiwn 'O gymharu â'ch pynciau eraill, pa mor anodd yw eich gwersi leithoedd Rhyngwladol yn eich barn chi?' gydag 1 yn cynrychioli 'hawdd iawn' a 7 yn cynrychioli 'anodd iawn'.*

O'i gymharu â'ch pynciau eraill, pa mor anodd ydych chi'n ei chael eich gwersi leithoedd Rhyngwladol?

● Cyfanswm yr Ymatebion | 5446 o ymatebion



**Ffigur 5: Ymatebion i'r cwestiwn 'O gymharu â'r Gymraeg, pa mor anodd yw leithoedd Rhyngwladol yn eich barn chi?' gydag  
l yn cynrychioli 'hawdd iawn' a 7 yn cynrychioli 'anodd iawn'.**



Rhyngwladol yn eich barn chi?'.<sup>15</sup> Roedd 5446 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Mae Ffigur 4 yn dangos bod 43 y cant (n=2360) o'r dysgwyr hyn wedi dewis '1/2/3' sy'n awgrymu eu bod yn ystyried bod leithoedd Rhyngwladol yn haws na phynciau eraill. Mewn cymhariaeth, dewisodd 27 y cant (n=1468) o'r dysgwyr hyn '5/6/7' sy'n awgrymu eu bod yn ystyried bod leithoedd Rhyngwladol yn anoddach na phynciau eraill. Dewisodd 30 y cant (n=1618) o'r dysgwyr '4', sy'n awgrymu nad yw'r pwnc, yn eu barn hwy, yn hawdd nac yn anodd o gymharu â phynciau eraill. Mae hyn yn cyd-fynd â chwestiwn cynharach lle gofynnwyd i'r

<sup>15</sup> Ni holwyd dysgwyr am ieithoedd unigol, ond yn hytrach leithoedd Rhyngwladol fel pwnc. Ni fu modd cymharu rhwng pynciau leithoedd Rhyngwladol, Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg, yn y dadansoddiad hwn oherwydd y nifer isel iawn o ysgolion sy'n addysgu mwy nag un iaith Ryngwladol ar lefel TGAU (Collen et al., 2022, 24). Gallai archwilio anhawster mewn perthynas ag ieithoedd gwahanol fod yn llwyr ymchwil yn y dyfodol.

holl ddysgwyr 'A ydych yn dymuno astudio TGAU mewn leithoedd Rhyngwladol?'. Gwnaeth 35 y cant o'r dysgwyr a atebodd 'annhebygol' neu 'bendant ddim' i'r cwestiwn hwn yna ddewis y rheswm 'mae'n rhy anodd' am beidio â dewis leithoedd Rhyngwladol. Mae data'r arolwg yn awgrymu, felly, bod y canfyddiad o anhawster yn rhwystr llai arwyddocaol wrth ddewis laith Rhyngwladol ar lefel TGAU nag a dybiwyd yn gyffredinol mewn adroddiadau a dadansoddiadau ysgolheigaidd, sy'n adlewyrchu astudiaeth Jones (2023b) ar gymhelliad dysgwyr yng Nghymru. Mae data'r arolwg yma yn dangos bod mwy o ddysgwyr a oedd yn ystyried bod leithoedd Rhyngwladol yn haws na phynciau eraill nag o ddysgwyr a oedd yn ystyried eu bod yn anoddach.

Yn ddiddorol, pan ofynnwyd i'r dysgwyr 'O gymharu â'r Gymraeg, pa mor anodd yw eich gwersi leithoedd Rhyngwladol yn eich barn chi?', roedd tuedd debyg i'r un a amlinellir uchod. Roedd 5446 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Mae Ffigur 5 yn dangos bod 47 y cant ( $n=2545$ ) o'r dysgwyr hyn wedi dewis '1/2/3' sy'n awgrymu eu bod yn ystyried bod leithoedd Rhyngwladol yn haws na'r Gymraeg, a dewisodd 27 y cant ( $n=1487$ ) o'r dysgwyr '4', sy'n awgrymu eu bod yn credu nad yw'r Gymraeg yn hawdd nac yn anodd o gymharu ag leithoedd Rhyngwladol. Mewn cymhariaeth, dewisodd 26 y cant ( $n=1414$ ) o'r dysgwyr hyn '5/6/7' sy'n awgrymu eu bod yn ystyried bod leithoedd Rhyngwladol yn anoddach na'r Gymraeg. Mae data'r arolwg yma yn dangos bod mwy o ddysgwyr a oedd yn ystyried bod leithoedd Rhyngwladol yn haws na'r Gymraeg nag o ddysgwyr a oedd yn ystyried eu bod yn anoddach.

### Trafodaeth

Mae'r erthygl hon wedi archwilio safbwyntiau dysgwyr ynghylch leithoedd Rhyngwladol yng Nghymru drwy ddata'r arolwg a gasglwyd o'r prosiect Mentora ITM o 2021/22. Mae'r safbwynt hwn yn absennol i raddau helaeth o astudiaethau hydredol o Gymru, fel yr adroddiadau *Tueddiadau leithoedd Cymru*, sy'n canolbwyntio ar safbwyntiau athrawon. Ceir negeseuon defnyddiol clir mewn perthynas â'r cwestiynau ynghylch y ffactorau sy'n cymell a rhwystro astudio leithoedd Rhyngwladol ar lefel TGAU, y cysylltiadau â phynciau eraill y cwricwlwm ac ymysg leithoedd a chanfyddiadau o anhawster. Mae'r rhain yn ysgogi myfyrdodau ynghylch

y ffordd orau o integreiddio leithoedd Rhyngwladol yn y Cwricwlwm i Gymru newydd.

***Pam Astudio leithoedd Rhyngwladol ar lefel TGAU? Mwynhad Personol hefyd yn Bwysig ac Awydd i ddysgu leithoedd Newydd***

Yn gyntaf, mae'r data arolwg yn dangos, o ran dewis a ffafriaeth, bod cymhelliad cynhenid yn arwyddocaol o ran ennyn ymrwymiad i ieithoedd ar gyfer dysgwyr ysgol uwchradd. O'r rheini sy'n bendant/mwy na thebyg eisiau astudio leithoedd Rhyngwladol, mae mwynhad personol yn rheswm pwerus dros barhau i astudio ieithoedd. Er mai defnyddioldeb, cyfleoedd i deithio ac ystyriaethau gyrfaol yw'r tri phrif reswm dros ddewis iaith ar lefel TGAU (cymhelliad anghynhenid), nododd dros hanner yr ymatebwyr eu bod yn dymuno parhau oherwydd bod ieithoedd yn 'hwyl', sydd oll yn rhesymau a welwyd mewn gwaith ymchwil arall ar gymhelliad dysgwyr i ddysgu ieithoedd yng Nghymru (e.e. Estyn, 2016, 20, 21). Gellir casglu'r mwynhad hwn hefyd o'r sylwadau a'r awgrymiadau o ran yr ieithoedd eraill y byddai dysgwyr wedi hoffi eu dysgu ond nad oeddent ar gael yn eu hysgol. Dewisodd dros 50 y cant o'r dysgwyr a ymatebodd ieithoedd nad ydynt yn cael eu cynnig o reidrwydd mewn ysgolion a gynhelir gan y wladwriaeth yng Nghymru, fel Rwseg a Japaneeeg. Mae'r awydd hwn i ddysgu ieithoedd 'eraill' yn dangos darlun mwy ar gyfer gwerthfawrogi ieithoedd nag y gellir ei fodloni o fewn cwricwla ysgol presennol. Mae'r canfyddiad hwn hefyd yn dangos atyniad diwylliannol dysgu gan gymunedau ieithyddol annhebyg a gwerth ymagwedd gyfoethog o ran cyd-destun tuag at ieithoedd a fyddai'n alinio addysgu leithoedd Rhyngwladol yn agosach â'r Saesneg o ran y cwricwlwm – sef y pwnc a fwynheir fwyaf yn ôl data'r arolwg. Mae'n werth nodi yma hefyd bod dylanwad pobl eraill, fel athrawon, rhieni, a chyfoedion, yn ffactor llai cyffredin o ran dysgwyr yn dewis astudio leithoedd Rhyngwladol ar lefel TGAU, fel y gwelir mewn astudiaethau eraill (e.e. Lanvers, 2017, 521). O'r cwestiynau a amlinellwyd yn y rhan flaenorol ynghylch cymhellion i ddewis leithoedd Rhyngwladol ar lefel TGAU, dim ond 5 y cant o'r dysgwyr a gytunodd â'r datganiad 'mae fy ffrindiau yn ei wneud'. Mae hyn yn awgrymu bod dewisiadau eu ffrindiau, er enghraifft, wedi dylanwadu ychydig yn unig ar eu penderfyniadau o ran dewis astudio leithoedd Rhyngwladol ar lefel TGAU.

***Cysylltiadau rhwng leithoedd Rhyngwladol a Saesneg a Chymraeg:  
Ddim yn Amlwg i Ddysgwyr***

Yn ail, mae dysgwyr Cymraeg yn arddangos perthynas gymhleth rhwng y canfyddiadau o bynciau'r cwricwlwm ac effaith canfyddiadau o'r fath ar wneud penderfyniadau. Mae'r Gymraeg ac leithoedd Rhyngwladol tua gwaelod y rhestr o'r pynciau a ffafirir gan ddysgwyr, tra bod Saesneg ar y brig, a'r pynciau STEM yng nghanol y rhestr. Mae'n ymddangos bod Saesneg fel pwnc yn bodoli mewn parth hollol wahanol i leithoedd Rhyngwladol a'r Gymraeg o ran mwynhad. Mae tanbriso leithoedd Rhyngwladol a'u statws isel o gymharu â phynciau STEM wedi'i adrodd yn rheolaidd gan athrawon yn yr adroddiadau *Tueddiadau leithoedd Cymru* (e.e. Tinsley, 2018, 39–40). Fodd bynnag, mae ein hymchwil yn dangos y dylid amodi'r cysyniad nad yw leithoedd Rhyngwladol yn cael eu mwynhau gan y canfyddiad bod dysgwyr, pan ofynnir iddynt yn uniongyrchol (ac nid drwy gymharu â phynciau eraill) a ydynt yn mwynhau eu dosbarthiadau, yn ymateb yn fwy cadarnhaol ac maent yn gosod dysgu leithoedd Rhyngwladol tuag at frig y raddfa Likert ar gyfer mwynhad.

Fodd bynnag, o ran dysgu leithoedd trawsgwricwlaidd, mae canfyddiadau'r arolwg yn dangos nad yw dysgwyr yng Nghymru ar hyn o bryd yn deall Saesneg, leithoedd Rhyngwladol a'r Gymraeg fel 'teulu' o bynciau cydgysylltiedig, fel yr hybir yn y Cwricwlwm i Gymru newydd (Llywodraeth Cymru, 2021b). Yn wir, adroddodd mwy o ddysgwyr (42 y cant) sut yr oedd dysgu Saesneg yn eu cefnogi gyda dysgu leithoedd Rhyngwladol na mewn perthynas â sut y gallai'r Gymraeg (28 y cant) gefnogi dysgu leithoedd Rhyngwladol. Nid oes tystiolaeth o'n harolwg bod y llwybr o fod yn ddwyieithog i fod yn amlieithog yn amlwg i ddysgwyr. Yn wir, canfu ymchwil gan Arfon (2024) bod athrawon yn credu bod gan ddysgwyr Cymraeg ddiffyg ymwybyddiaeth o sut bydd eu sgiliau Saesneg a Chymraeg yn eu cefnogi wrth ddysgu leithoedd Rhyngwladol. Yn astudiaeth Arfon, roedd cyfrwng addysgu ysgolion yn effeithio ar gredoau athrawon. Yn benodol mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, dywedodd athrawon fod Saesneg yn cael ei deall fel 'llythrennedd', o gymharu â'r Gymraeg ac leithoedd Rhyngwladol, a oedd yn cael eu gweld fel 'leithoedd' (Arfon, 20204). Dylai ymchwil yn y dyfodol archwilio a yw graddau'r ddarpariaeth Gymraeg yn effeithio ar sut y mae dysgwyr yn uniaethu â Saesneg, leithoedd Rhyngwladol a'r Gymraeg. Er mwyn i leithoedd Rhyngwladol ffynnu, byddai meithrin perthnasoedd mwy rhagweithiol rhwng y Saesneg, leithoedd Rhyngwladol a'r Gymraeg yn talu ar ei ganfed.

***leithoedd Rhyngwladol: Nid Anhawster yw'r Prif Rwystur***

Yn drydydd, mae data'r arolwg yn dangos nad oes safbwynt wedi'i bennu ymlaen llaw ymysg dysgwyr bod leithoedd Rhyngwladol yn anoddach na phynciau eraill mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru, gan gynnwys y Gymraeg – canfyddiad a nodir yn aml mewn adborth gan athrawon leithoedd Rhyngwladol yng Nghymru (Estyn, 2009, 24; Tinsley, 2019a, 20). Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd parhau i archwilio safbwyntiau dysgwyr ynghylch leithoedd yng Nghymru. O'r rheini a ddywedodd y byddent yn bendant ddim yn dewis/annhebygol o ddewis leithoedd Rhyngwladol ar lefel TGAU, nododd 51 y cant o'r ymatebwyr hyn bod hynny oherwydd 'mae'n ddiflas', a dewisodd 47 y cant ohonynt 'mae'n well gen i wneud rhywbeth arall'. Dyma'r ddau rwystur mwyaf poblogaidd a ddewiswyd o'r gronfa o 16 o ddatganiadau. Yn yr un modd, yn astudiaeth ddiweddar Jones (2023, 82), cyfyngiadau blychau opsiynau ac amserlenni oedd y prif rwystrau i ddysgwyr o ran dewis peidio ag astudio leithoedd Rhyngwladol ar lefel TGAU. Fel yr awgrymodd Lanvers (2017, 521) yng nghyd-destun Lloegr, mae dysgwyr yn y sector cynradd yn llawn brwdfrydedd ynghylch dysgu ieithoedd, ond mae'r diddordeb a'r awydd i ddysgu iaith yn dirywio yn ystod addysg uwchradd. Gallai parhad y dull 'darganfod' o ddysgu iaith, sy'n canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o ieithoedd a hybu cwricwlwm iaith cysylltiedig a ysgogir gan chwilfrydedd, wella cymhelliad ieithyddol. Atgyfnerthir hyn gan Coffey (2022) yn ei waith ar 'uchelgais' a phwysigrwydd dysgu cynnwys a dysgu diwylliannol yn y dosbarth ieithoedd tramor modern. Mae ymchwil bellach gan addysgwyr sy'n archwilio hunaniaethau amlieithog yn y dosbarth (Fisher et al., 2022; Forbes et al., 2021) ac ieithyddion sy'n gweithio ar ryngwyneb ymarfer creadigol a dysgu ieithoedd (Kohl et al., 2020) yn darparu tystiolaeth bwerus o werth dulliau o'r fath. Mae arbenigwyr yng Nghymru hefyd wedi hybu'r dull hwn mewn ymchwil a gomisiynwyd ar gyfer Llywodraeth Cymru ar ddulliau addysgu ail iaith (Fitzpatrick et al., 2018, 67).

**Casgliad**

Gan ddychwelyd at ein cyflwyniad, mae'r data a ddadansoddwyd yn dweud llawer wrthym am safbwyntiau dysgwyr a dysgu ieithoedd yng Nghymru a sut y gellid cynyddu nifer y dysgwyr sy'n dysgu ieithoedd mewn ysgolion uwchradd. Mae ein

data'n awgrymu, yn gyntaf, nad oes amharoddrwydd cynhenid i ddysgu leithoedd Rhyngwladol ond nad yw dysgwyr yn gweld sut a lle y mae leithoedd Rhyngwladol yn cydweddu â'r cwricwlwm ehangach yng Nghymru. Nid ydynt o reidrwydd yn cysylltu leithoedd Rhyngwladol â rhai o'r pynciau y maent yn eu mwynhau fwyaf, fel Saesneg. Mae cyfle'n cael ei golli yn y fan hon a gellid ei archwilio i wneud y mwyaf o welededd a gwerth leithoedd Rhyngwladol i ddysgwyr mewn ysgolion uwchradd. Mae ein data hefyd yn dweud wrthym, er y gall dysgwyr weld a gwerthfawrogi 'defnyddioldeb' leithoedd, mae'r rheini sy'n awyddus i astudio leithoedd hefyd yn cyfleu'r mwynhad a'r 'hwyl' y maent yn ei gael o ddysgu leithoedd. I gynyddu'r nifer sy'n dysgu leithoedd Rhyngwladol, mae angen cynyddu'r boddhad personol yn y dosbarth a'i integreiddio o fewn adnoddau'r cwricwlwm, yn ogystal â'r gwaith asesu. Ceir cwestiwn hefyd ynghylch y diddordeb mewn leithoedd y tu hwnt i'r 'tair fawr' sef Ffrangeg, Sbaeneg, ac Almaeneg (nad yw mor amlwg bellach), diddordeb sydd heb ei fodloni. Yn oes Duolingo, lle gallwn ddysgu lluo o leithoedd ar ein ffonau symudol a'n gliniaduron, mae'r dosbarth yn amgylchedd sydd â llawer llai o 'ffiniau' ar gyfer profi dysgu iaith a gwneud camgymeriadau. Gellid datblygu dull darganfod o ddysgu sy'n ysbrydoli dysgwyr leithoedd – pob iaith – mewn ysgolion cynradd i raddau helaethach yng nghwricwlwm ysgolion uwchradd. Byddai hyn yn cynyddu'r rhyngweithio ag adnoddau a chyfleoedd ieithyddol creadigol, yn ogystal â meithrin perthynas â chymunedau ieithyddol y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth – yn yr amgylchedd lleol, mewn colegau Addysg Bellach, prifysgolion cyfagos ac yn fyd-eang drwy deithio rhithwir a gwirioneddol. Mae bod yn rhan o gymuned ehangach o ddysgwyr leithoedd yn llywio'r meddylfryd dinasyddiaeth fyd-eang sydd wrth galon gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl ifanc yn y Cwricwlwm i Gymru newydd. Mae hyn yn amlwg yn y Maes Dysgu a Phrofiad leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu lle bo'r datganiad 'Mae leithoedd yn ein cysylltu â'n gilydd' yn un o'r pedwar Datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig (Llywodraeth Cymru, 2021b). Os ydym ni yng Nghymru yn dymuno atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn dysgu leithoedd Rhyngwladol, mae angen i ni ysgogi'r cysylltedd hwn rhwng leithoedd drwy ddull creadigol o ddysgu leithoedd sy'n tynnu ar asedau ieithyddol niferus Cymru.

**Atodiad I: Cwestiynau penodol o'r holiadur dysgwyr sy'n sail i'r gwaith dadansoddi ar gyfer yr erthygl hon**

**Cwestiwn 6**

Rhywedd:

Benywaidd

Gwrywaidd

Gwell gen i nodi hunaniaeth fy hun \_\_\_\_\_

Gwell gen i beidio â dweud

**Cwestiwn 7**

Ethnigrwydd:

**Gwyn** Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gwyddelig o Ogledd Iwerddon neu Wyddelig Prydeinig, Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig, Unrhyw gefndir Gwyn arall

**Grwpiau Ethnig Cymysg neu Luosog** Gwyn a Du Caribïaidd, Gwyn a Du Affricanaidd, Gwyn ac Asiaidd, Unrhyw gefndir ethnig Cymysg neu Luosog arall  
**Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig** Indiaidd, Pacistanaidd, Bangladeshaid, Tsieineaid, Unrhyw gefndir Asiaidd arall

**Du, Affricanaidd, Caribïaidd neu Du Prydeinig** Affricanaidd, Caribïaidd, Unrhyw gefndir Du, Affricanaidd neu Garibïaidd arall

**Grŵp ethnig arall** Arabaidd, Persiaidd, Unrhyw grŵp ethnig arall

Gwell gen i beidio â dweud

**Cwestiwn 8**

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddewis yr ysgol y maent yn ei mynychu o gwmpen o 86 o ysgolion uwchradd. Cynigwyd 'arall' fel dewis hefyd. Pan ddewiswyd 'arall', dangoswyd Cwestiwn 10 i'r dysgwyr: 'Beth yw enw eich ysgol?' Cafodd cyfrwng addysgu'r ysgolion ei godio ar ôl casglu'r data gan ddefnyddio gwybodaeth o Fy Ysgol Leol: <https://mylocalschool.gov.wales/?lang=cy>.

### Cwestiwn 9

Grŵp blwyddyn:

Blwyddyn 7

Blwyddyn 8

Blwyddyn 9

Blwyddyn 10

Blwyddyn 11

### Cwestiwn 30

I ba raddau ydych chi'n mwynhau eich gwersi ieithoedd rhyngwladol?

Ddim o gwbl 1

2

3

4

5

6

Yn fawr iawn 7

### Cwestiwn 31

I ba raddau ydych chi'n mwynhau eich gwersi Cymraeg?

Ddim o gwbl 1

2

3

4

5

6

Yn fawr iawn 7

### **Cwestiwn 32**

I ba raddau ydych chi'n mwynhau eich gwersi Saesneg?

Ddim o gwbl 1

2

3

4

5

6

Yn fawr iawn 7

### **Cwestiwn 33**

I ba raddau ydych chi'n mwynhau eich gwersi gwyddoniaeth (ffiseg, bioleg, cemeg)?

Ddim o gwbl 1

2

3

4

5

6

Yn fawr iawn 7

### **Cwestiwn 34**

I ba raddau ydych chi'n mwynhau eich gwersi mathemateg?

Ddim o gwbl 1

2

3

4

5

6

Yn fawr iawn 7

### Cwestiwn 35

Rhestrwch y pynciau hyn ar sail **faint rydych yn eu mwynhau**.

*Llusgwch a gollyngwch y pynciau fel bod eich hoff bwnc ar y brig a'r pwnc rydych yn ei hoffi leiaf ar y gwaelod.*

- \_\_\_\_\_ Celf
- \_\_\_\_\_ Drama
- \_\_\_\_\_ Saesneg
- \_\_\_\_\_ Daearyddiaeth
- \_\_\_\_\_ Hanes
- \_\_\_\_\_ Ieithoedd Rhyngwladol
- \_\_\_\_\_ TG
- \_\_\_\_\_ Mathemateg
- \_\_\_\_\_ Cerddoriaeth
- \_\_\_\_\_ Addysg Gorfforol
- \_\_\_\_\_ Addysg Grefyddol
- \_\_\_\_\_ Gwyddoniaeth
- \_\_\_\_\_ Cymraeg

### Cwestiwn 36

O gymharu â'ch pynciau eraill, pa mor anodd yw eich gwersi ieithoedd rhyngwladol yn eich barn chi?

Hawdd iawn 1

2

3

4

5

6

Anodd iawn 7

### **Cwestiwn 37**

O gymharu â'r Gymraeg, pa mor anodd yw eich gwersi ieithoedd rhyngwladol yn eich barn chi?

Hawdd iawn 1

2

3

4

5

6

Anodd iawn 7

### **Cwestiwn 39**

I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiad a ganlyn: Mae dysgu Cymraeg yn fy helpu i ddysgu ieithoedd rhyngwladol.

Cytuno'n gryf

Cytuno

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Anghytuno

Anghytuno'n gryf

### **Cwestiwn 40**

I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiad a ganlyn: Mae dysgu Saesneg yn fy helpu i ddysgu ieithoedd rhyngwladol.

Cytuno'n gryf

Cytuno

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Anghytuno

Anghytuno'n gryf

## Cwestiwn 42

Ydych chi'n dymuno astudio TGAU mewn ieithoedd rhyngwladol?

Ydw yn bendant

Ydw fwy na thebyg

Efallai

Annhebygol

Bendant ddim

## Cwestiwn 43

**Dangoswch y cwestiwn hwn os yw'r ymatebydd yn dewis 'annhebygol' neu 'bendant ddim' ar gyfer cwestiwn 42.**

Beth sy'n eich atal rhag dewis TGAU mewn ieithoedd rhyngwladol? Gallwch ddewis cynifer ag y dymunwch.

Mae'n rhy anodd

Nid wy'n dda yn y pwnc

Mae'n ddiflas

Nid yw'n ddefnyddiol

Nid yw'n greadigol

Mae pawb yn siarad Saesneg

Rwy'n astudio Cymraeg yn barod

Mae'n well gen i wneud rhywbeth arall

Nid wyf ei angen ar gyfer y swydd rydw i ei heisiau

Nid wy'n hoffi fy athro/athrawes

Nid wy'n hoffi fy ngwersi

Nid oes gen i ddigon o ddewisiadau o ran opsiynau

Nid yw fy ffrindiau yn ei wneud

Nid yw fy rhieni/gwarcheidwaid yn credu ei fod yn syniad da

Nid yw fy athro/athrawes yn credu ei fod yn syniad da

Arall, nodwch:

#### **Cwestiwn 44**

**Dangoswch y cwestiwn hwn os bydd yr ymatebydd yn dewis ‘ydw yn bendant’ neu ‘ydw fwy na thebyg’ ar gyfer cwestiwn 42.**

Beth sy'n gwneud i chi fod eisiau astudio TGAU mewn ieithoedd rhyngwladol?

Gallwch ddewis cynifer ag y dymunwch.

Mae'n hawdd

Rwy'n dda yn y pwnc

Mae'n hwyl

Mae'n ddefnyddiol

Mae'n greadigol

Bydd yn fy helpu i gael swydd

Mae'n ddewis cyntaf i mi

Mae'n ddefnyddiol gyda'r Gymraeg hefyd

Rydw i eisiau teithio

Rydw i eisiau gweithio dramor

Rwy'n hoffi dysgu am ddiwylliannau gwahanol

Rwy'n hoffi fy athro/athrawes

Rwy'n hoffi fy ngwersi

Mae fy ffrindiau yn ei wneud

Mae fy rhieni/gwarcheidwaid yn credu ei fod yn syniad da

Mae fy athro/athrawes yn credu ei fod yn syniad da

Arall, nodwch:

#### **Cwestiwn 45**

A oes ieithoedd eraill yr hoffech eu dysgu nad ydynt ar gael yn eich ysgol?

Oes

Nac oes

Ddim yn siŵr

### Cwestiwn 46

Dangoswch y cwestiwn hwn os bydd yr ymatebydd yn dewis 'oes' ar gyfer cwestiwn 45.

Pa iaith/ieithoedd yr hoffech eu dysgu nad ydynt ar gael yn eich ysgol?

### Cwestiwn 51

I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiad a ganlyn: Mae pynciau eraill yn fwy pwysig i fy nyfodol nag ieithoedd rhyngwladol.

Cytuno'n gryf

Cytuno

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Anghytuno

Anghytuno'n gryf

### Cwestiwn 52

Pa bynciau eraill y credwch sy'n fwy pwysig i'ch dyfodol nag ieithoedd rhyngwladol? Gallwch ddewis cynifer ag y dymunwch.

Celf

Busnes

Drama

Saesneg

Daearyddiaeth

Hanes

TG

Mathemateg

Cerddoriaeth

Addysg Gorfforol

Addysg Grefyddol

Gwyddoniaeth

Cymraeg

Arall - nodwch:

### Cyfeiriadau

- Arfon, E. (2024). *Plurilingualism in the curriculum for Wales: a qualitative inquiry into secondary school international languages teachers' beliefs during the preparatory stages of the new curriculum and reformed GCSEs*. Traethawd PhD, Prifysgol Caerdydd. Ar gael yn: <https://orca.cardiff.ac.uk/id/eprint/166579/> (cyrchwyd 30 March 2024).
- Blair, J., Czaja, R. a Blair, E. (2014). *Questionnaire development I: measurement error and question writing*. SAGE Publications Inc.
- Board, K. a Tinsley, T. (2016). *Tueddiadau ieithoedd yng Nghymru 2015/2016: cyflwr dysgu ieithoedd mewn ysgolion cynradd ac uwchradd*. Ar gael yn: <https://wales.britishcouncil.org/rhaglenni/addysg/tueddiadau-iaith-cymru> (cyrchwyd 11 Awst 2022).
- Board, K. a Tinsley, T. (2017). *Tueddiadau ieithoedd yng Nghymru 2016/17: cyflwr dysgu ieithoedd mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru*. Ar gael yn: <https://wales.britishcouncil.org/rhaglenni/addysg/tueddiadau-iaith-cymru> (cyrchwyd 11 Awst 2022).
- Bolster, A. (2009). Continuity or a fresh start? A case study of motivation in MFL at transition, KS2–3. *Language Learning Journal* 37(2), 233–54. Doi: <https://doi.org/10.1080/09571730902928102>
- Bui, G. (2023). A dual-motivation system in L2 and L3 learning: a theoretical framework and pedagogical application. *Languages* 8(69), 1–11 Doi: <https://doi.org/10.3390/languages8010069>
- Chen, L. Y., Karas, M., Shalazar, M. a Piccardo, E. (2022). From 'promising controversies' to negotiated practices: a research synthesis of plurilingual pedagogy in global contexts. *TESL Canada Journal*, 38(2), 1–35. Doi: <https://doi.org/10.18806/tesl.v38i2.1354>
- Coffey, S. (2022). 'Ambition for all'? Competing visions of 'ambition' and recognising language learning and teaching as a geo-historically situated social practice. *The Language Learning Journal*, 50(2), 142–5. Doi: <https://doi.org/10.1080/09571736.2022.2045682>
- Coleman, J. A., Galaczi, A. ac Astruc, L. (2007). Motivation of UK school pupils towards foreign languages: a large-scale survey at key stage 3. *Language Learning Journal* 35(2), 245–81. Doi: <https://doi.org/10.1080/09571730701599252>
- Collen, I., Liu, M. ac O'Boyle, A. (2022). *Tueddiadau ieithoedd Cymru 2022*. Ar gael yn: <https://wales.britishcouncil.org/rhaglenni/addysg/tueddiadau-iaith-cymru> (cyrchwyd 17 Mai 2023).
- Collen, I., O'Boyle, A. ac O'Neill, S. (2021). *Tueddiadau ieithoedd Cymru 2021: addysgu ieithoedd mewn ysgolion uwchradd a cholegau ôl-16 – adroddiad arolwg*. Ar gael yn: <https://wales.britishcouncil.org/rhaglenni/addysg/tueddiadau-iaith-cymru> (cyrchwyd 11 Awst 2022).
- Deci, E. L. a Ryan, R. M. (1985). *Intrinsic motivation and self-determination in human behavior*. New York: Plenum.

- Department of Education. 2012. *Languages for the future: Northern Ireland's language strategy*. Ar gael yn: <https://www.education-ni.gov.uk/publications/languages-future-northern-ireland-languages-strategy-final-report> (cyrchwyd 08 Chwefror 2024).
- Donaldson, G. (2015). *Dyfodol Llwyddiannus – adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru*. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/dyfodol-llwyddiannus-adolygiad-or-cwricwlwm-ar-trefniadau-asesu> (cyrchwyd 09 Awst 2022).
- Dörnyei, Z. (2009). The L2 motivational self-system. Yn: Z. Dörnyei, ac E. Ushioda (goln), *Motivation, language identity and the L2 self*. Bryste, DU: Multilingual Matters, 9–42.
- Duff, J., O'Boyle, A. a Collen, I. (2024). *Tueddiadau ieithoedd Cymru 2023*. Ar gael yn: <https://wales.britishcouncil.org/rhaglenni/addysg/tueddiadau-iaith-cymru> (cyrchwyd 04 Chwefror 2024).
- Education Scotland (2022). *Curriculum for excellence: experiences and outcomes*. Ar gael yn: <https://education.gov.scot/curriculum-for-excellence/experiences-and-outcomes/> (cyrchwyd 09 Awst 2022).
- Estyn (2009). *Gwella ieithoedd tramor modern yn ysgolion uwchradd Cymru – Cyngor ac arweiniad ar arfer dda i ysgolion ac awdurdodau lleol*.
- Estyn (2016). *Ieithoedd Tramor Modern*.
- Fisher, L., Evans, M., Forbes, K., Gayton, A., Liu, Y. a Rutgers, D. (2022). Language experiences, evaluations and emotions (3Es): analysis of structural models of multilingual identity for language learners in schools in England. *International Journal of Multilingualism*. Doi: <https://doi.org/10.1080/14790718.2022.2060235>
- Fitzpatrick, T., Morris, S., Clark, T., Mitchell, R., Needs, J., Tanguay, E. a Tovey, B. (2018). *Asesiad cyflym o'r dystiolaeth: ymagweddau a dulliau addysgu ail iaith effeithiol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 31/2018. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/ymagweddau-dulliau-addysgu-ail-iaith-effeithiol-asesiad-cyflym-or-dystiolaeth> (cyrchwyd 22 Mai 2023).
- Forbes, K., Evans, M., Fisher, L., Gayton, A., Liu, Y. a Rutgers, D. (2021). Developing a multilingual identity in the languages classroom: the influence of an identity-based pedagogical intervention. *The Language Learning Journal*, 49(4), 433–51. Doi: <https://doi.org/10.1080/09571736.2021.1906733>
- Gardner, R. C. (2001). Integrative motivation and second language acquisition. Yn: Z. Dörnyei a R. Schmidt (goln), *Motivation and second language acquisition*. Honolulu, HI: University of Hawaii Press, 1–20.
- Gardner, R. C. a Lambert, W. E. (1972). *Attitudes and motivation in second language learning*. Rowley, MA: Newbury House.
- Gorrara, C. (2018). Speaking from Wales: building a modern languages community in an era of Brexit. Yn: M. Kelly (gol), *Languages after Brexit: how the UK speaks to the world*. Cham: Palgrave Macmillan, 149–58.
- Gorrara, C., Jenkins, L., Jepson, E. a Machin, T. L. (2020). Multilingual perspectives: preparing for language learning in the new curriculum for Wales. *The Curriculum Journal* 31(2), 244–257. Doi: <https://doi.org/10.1002/curj.11>

- Hélot, C. a Bonacina-Pugh, F. (2023). Language education policies for young learners in Europe. *European Journal of Language Policy*, 15(1), 5–24. Doi: <https://doi.org/10.3828/ejlp.2023.2>
- Henry, A. (2017). L2 motivation and multilingual identities, *Modern Language Journal*, 101(3), 548–65. Doi: <https://doi.org/10.1111/modl.12412>
- Holmwood, J. (2014). Reflexivity as situated problem-solving: a pragmatist alternative to general theory. *Sociologica* 8(1), 1–26. Doi: 10.2383/77051
- JCQ (Joint Council for Qualifications) (2022a). *A level results summer 2022*. Ar gael yn: <https://www.jcq.org.uk/examination-results/> (cyrchwyd 29 Awst 2022).
- JCQ (Joint Council for Qualifications) (2022b). *GCSE full course results summer 2022*. Ar gael yn: <https://www.jcq.org.uk/examination-results/> (cyrchwyd 29 Awst 2022).
- Jepson, E. (2020). *Finding your 'route': the role of outreach initiatives in motivating pupils to continue their language journeys*.
- Jones, D. (2021). “Dyfodol llwyddiannus” i’n “dyfodol byd-eang?” – goblygiadau cwricwlwm 2022 ar addysgu a dysgu ieithoedd rhyngwladol. *Cylchgrawn Addysg Cymru*, 23(1). Doi: <https://doi.org/10.16922/wje.23.1.5>
- Jones, D. (2023a). Why do secondary school pupils in Wales choose to study a modern foreign language? *The European Conference on Language Learning 2023 Official Conference Proceedings*.
- Jones, D. (2023b). Dewis iaith dramor fodern fel pwnc TGAU - a oes dewis? Y blychau opsiwn a ffactorau eraill. *Cylchgrawn Addysg Cymru*, 25(2), 63–88. Doi: <https://doi.org/10.16922/wje.25.2.4>
- Jones, M., Duggan, B. a Davis, J. (2022). *Gwerthusiad o Ddyfodol Byd-eang: cynllun i wella a hyrwyddo ieithoedd rhyngwladol yng Nghymru 2020 i 2022*. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/gwerthuso-dyfodol-byd-eang> (cyrchwyd 02 Hydref 2022).
- Jones, S. L. (2019). Perspectives and attitudes towards Welsh-medium study at post-compulsory level among 15–16-year-old students in the South Wales Valleys. *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism*, 25(1), 261–71. Doi: <https://doi.org/10.1080/13670050.2019.1668349>
- Jones, S. (2020). Finding our true north: on languages, understanding and curriculum in Northern Ireland. *The Curriculum Journal*, 32, 444–58. Doi: <https://doi.org/10.1002/curj.93>
- Kelly, L. M. a Cordeiro, M. (2020). Three principles of pragmatism for research on organizational processes. *Methodological Innovations*, 13(2), 1–10. Doi: <https://doi.org/10.1177/2059799120937242>
- Kohl, K., Dudrah, R., Gosler, A., Graham, S., Maiden, M., Ouyang, W.-C. a Reynolds, M. (goln) (2020). *Creative multilingualism: a manifesto*. Open Book Publisher.
- Janvers, U. (2017). Contradictory others and the habitus of languages: surveying the L2 motivation landscape in the United Kingdom. *The Modern Language Journal*, 101(3), 517–32. Doi: <https://onlinelibrary.wiley.com/doi/10.1111/modl.12410>
- Janvers, U. a Chambers, G. (2019). In the shadow of global English? Comparing language learner motivation in Germany and the United Kingdom. Yn: M. Lamb, K.

- Csízér, A. Henry a S. Ryan (goln), *The Palgrave handbook of motivation for language learning*. Cham: Palgrave Macmillan, 429–48.
- Lanvers, U. a Graham, S. (2022). Can we design language education policy and curricula for a motivated learner? Self-Determination Theory and the UK language crisis. *The Language Learning Journal*, 50(2), 223–37. Doi: <https://doi.org/10.1080/09571736.2022.2046353>
- Llywodraeth Cymru (2015). *Dyfodol byd-eang: cynllun i wella a hyrwyddo ieithoedd tramor modern yng Nghymru 2015–2020*. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/dyfodol-byd-eang-cynllun-ieithoedd-tramor-modern> (cyrchwyd 10 Awst 2022).
- Llywodraeth Cymru (2017). *Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr*. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg> (cyrchwyd 10 Awst 2022).
- Llywodraeth Cymru (2019). *Asesiadau athrawon y cwricwlwm cenedlaethol o'r pynciau di-graidd: 2019. Adroddiad yn edrych ar gyflawniadau disgyblion yn y pynciau di-graidd yng nghyfnod allweddol 2 a 3 ar gyfer 2019*. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/asesiadau-athrawon-y-cwricwlwm-cenedlaethol-or-pynciau-di-graidd-2019-html> (cyrchwyd 23 Mai 2023).
- Llywodraeth Cymru (2021a). *Maes dysgu a phrofiad ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu: cyflwyniad*. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/ieithoedd-llythrennedd-a-chyfathrebu/> (cyrchwyd 09 Awst 2022).
- Llywodraeth Cymru (2021b). *Maes dysgu a phrofiad ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu: disgrifiadau dysgu*. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/ieithoedd-llythrennedd-a-chyfathrebu/disgrifiadau-dysgu/> (cyrchwyd 09 Awst 2022).
- Llywodraeth Cymru (2021c). *Dyfodol byd-eang: cynllun i wella a hyrwyddo ieithoedd tramor modern yng Nghymru 2020 to 2022*. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/dyfodol-byd-eang-cynllun-i-wella-hyrwyddo-ieithoedd-tramor-modern-yng-nghymru-2020-i-2022-html> (cyrchwyd 10 Awst 2022).
- Llywodraeth Cymru (2021d). *Canllawiau ar gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg*. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/categoreiddio-ysgolion-yn-ol-ddarpariaeth-cyfrwng-cymraeg> (cyrchwyd 29 Mai 2023).
- Llywodraeth Cymru (2021e). *Rhaglen lywodraethu: diweddariad*. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/rhaglen-lywodraethu-diweddariad> (cyrchwyd 19 Awst 2022).
- Llywodraeth Cymru (2022a). *Y Gymraeg yng Nghymru (Cyfrifiad 2021)*. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/y-gymraeg-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html> (cyrchwyd 17 Mai 2023).
- Llywodraeth Cymru (2022b). *Dyfodol byd-eang: cynllun i wella a hyrwyddo ieithoedd rhyngwladol yng Nghymru 2022–2025*. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/dyfodol-byd-eang-cynllun-i-wella-hyrwyddo-ieithoedd-rhyngwladol-yng-nghymru-2022-i-2025-html> (cyrchwyd 17 Mai 2023).
- Llywodraeth Cymru (2023a). *Disgyblion 5 oed a throsodd gyda iaith gyntaf gwahanol i Saesneg neu Gymraeg, yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a blwyddyn*. Ar gael yn: <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Ethnicity-National-Identity-and-Language/pupilsa>

- ged5andoverfirstlanguageotherthanenglishwelsh-by-localauthorityregion-year (cyrchwyd 04 Chwefror 2024).
- Llywodraeth Cymru (2023b). *Iaith gyntaf disgyblion 5 oed a throsodd yn ôl iaith a blwyddyn*. Ar gael yn: <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Ethnicity-National-Identity-and-Language/firstlanguageofpupilsaged5andover-by-language-year> (cyrchwyd 04 Chwefror 2024).
- Llywodraeth Cymru (2023c). *Ymgeisiadau a chanlyniadau TGAU (disgyblion ym mlwyddyn 11/ disgyblion 15 oed) fesul grŵp pwnc*. Ar gael yn: <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Key-Stage-4/gcseentriesandresultspupilsaged15-only-by-subjectgroup> (cyrchwyd 04 Chwefror 2024).
- Makarova, I., Duarte, J. a Huilcán, M. (2021). Expert views on the contribution of language awareness and translanguaging for minority language education. *Language Awareness*, 32(1), 74–93. Doi: <https://doi.org/10.1080/09658416.2021.1963976>
- Oakes, L. a Howard, M. (2019). Learning French as a foreign language in a globalised world: an empirical critique of the L2 Motivational Self System. *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism*, 25(1), 166–82. Doi: <https://doi.org/10.1080/13670050.2019.1642847>
- OECD (2021). *Scotland's curriculum for excellence: into the future, implementing education policies*. Ar gael yn: <https://www.oecd.org/education/scotland-s-curriculum-for-excellence-bf624417-en.htm> (cyrchwyd 29 Awst 2022).
- Parrish, A. a Lanvers, U. (2018). Student motivation, school policy choices and modern language study in England. *The Language Learning Journal* 47(3), 281–298. Doi: <https://doi.org/10.1080/09571736.2018.1508305>
- Rhys, M. a Smith, K. (2022). 'Mae popeth yn troi o amgylch yr arholiad': Beth yw canfyddiadau a phrofiadau myfyrwyr ysgol uwchradd o ddysgu Cymraeg fel ail iaith yng Nghymru? *Cylchgrawn Addysg Cymru*, 24(1), 3–30. Doi: <https://doi.org/10.16922/wje.24.1.1cym>
- Rushton, L. a Thomas, L. (2020). *Review of the MFL student mentoring project 2015-2020*. Ar gael yn: <https://mflmentoring.co.uk/evaluations/> (cyrchwyd 13 February 2024).
- Saunders, M. N. K., Lewis, P. a Thornhill, A. (2019). *Research methods for business students*. 8th arg. Harlow: Pearson Education Limited.
- Scottish Government (2012). *Language learning in Scotland: a 1 + 2 approach*. Ar gael yn: <https://www.gov.scot/publications/language-learning-scotland-12-approach/> (cyrchwyd 10 Awst 2022).
- Sinnema, C., Nieveen, N. a Priestley, M. (2020). Successful futures, successful curriculum: what can Wales learn from international curriculum reforms? *The Curriculum Journal*, 31(2), 181–201. Doi: <https://doi.org/10.1002/curj.17>
- The Council for the Curriculum, Examinations & Assessment (CCEA). 2020. *Curriculum areas of learning*. Ar gael yn: <https://ccea.org.uk/about/what-we-do/curriculum/curriculum-areas-learning> (cyrchwyd 09 Awst 2022).

- Thomas, E. M., Apolloni, D. a Lewis, G. (2014). The learner's voice: exploring bilingual children's selective language use and perceptions of minority language competence. *Language and Education*, 28(4), 340–61. Doi: <https://doi.org/10.1080/09500782.2013.870195>
- Thomas, H., Duggan, B., McAlister-Wilson, S., Roberts, L., Sinnema, C., Cole-Jones, N. a Glover, A. (2023). *Ymchwil gydag ysgolion ar weithrediad cynnar y Cwricwlwm i Gymru: adroddiad cam 1*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 49/2023 Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/ymchwil-gydag-ysgolion-dysgwyr-ar-weithredu-cynnar-y-cwricwlwm-i-gymru-cam-1> (cyrchwyd 22 Mai 2023).
- Thomas, L. (2022). *MFL mentoring school case studies*. Ar gael yn: <https://mflmentoring.co.uk/evaluations/> (cyrchwyd 12 Chwefror 2024).
- Tinsley, T. (2017). *Raising the profile of MFL mentoring initiative: evaluator's final report*. Ar gael yn: <https://mflmentoring.co.uk/evaluations/> (cyrchwyd 13 Chwefror 2024).
- Tinsley, T. (2018). *Tueddiadau ieithoedd yng Nghymru 2018 – cyflwr dysgu ieithoedd mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru*. Ar gael yn: <https://wales.britishcouncil.org/rhaglenni/addysg/tueddiadau-iaith-cymru> (cyrchwyd 11 Awst 2022).
- Tinsley, T. (2019a). *Tueddiadau ieithoedd yng Nghymru 2019: ieithoedd rhyngwladol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru*. Ar gael yn: <https://wales.britishcouncil.org/rhaglenni/addysg/tueddiadau-iaith-cymru> (cyrchwyd 11 Awst 2022).
- Tinsley, T. (2019b). *Longitudinal review of MFL student mentoring project*. Ar gael yn: <https://mflmentoring.co.uk/evaluations/> (cyrchwyd 13 Chwefror 2024).
- Ushioda, E. (2011). Language learning motivation, self and identity: current theoretical perspectives. *Computer Assisted Language Learning*, 24(3), 199–210. Doi: <https://doi.org/10.1080/09588221.2010.538701>